



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

UGAEIC
Uned Gymorth Asesu
Effaith ar Iechyd Cymru



WHIASU
Wales Health Impact
Assessment Support Unit

Iechyd ym maes Cynllunio: Rôl Iechyd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru



Mehefin 2025

Paratowyd ar gyfer:

Iechyd Cyhoeddus Cymru, Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru
(UGAEIC)

Paratowyd gan:

Fiona Haigh, Amber Murphy, Jinhee Kim, Liz Green, Cheryl Williams



UNSW
SYDNEY

Teitl:

Iechyd ym maes Cynllunio: Rôl iechyd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru

Awduron:

Fiona Haigh, Amber Murphy, Jinhee Kim, Liz Green, Cheryl Williams

Y Tîm Ymchwil:

Fiona Haigh, Amber Murphy, Jinhee Kim, Liz Green, Cheryl Williams

Fformat cyfeirio a argymhellir:

Haigh F, Murphy A, Kim J, Green L a Williams C (2025), Iechyd ym Maes Cynllunio: Rôl iechyd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru. Sydney, UNSW

Ynglŷn â'r ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ddulliau a chanfyddiadau allweddol yr adolygiad o'r modd y caiff iechyd ei gynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru. Bwriedir i'r adroddiad lywio a chefnogi Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru.



ISBN 978-1-83766-626-3

© 2025 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud mewn modd cywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint yn y drefn deipograffyddol, y dyluniad a'r gosodiad yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Tabl Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	2
Cefndir.....	3
Canfyddiadau	4
Iechyd.....	4
Tegwch Iechyd	5
Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd.....	6
Grwpiau Poblogaeth	6
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.....	7
Dangosyddion a Mesurau	7
Casgliad a chamau gweithredu a awgrymir.....	8
Atodiad 1: Dulliau	10
Atodiad 2: Adolygiad cryno o'r CDLlau	12



Crynodeb Gweithredol

Mae'r system cynllunio yng Nghymru yn gweithredu ar dair lefel: cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) yn llywio'r defnydd o dir a datblygiadau ar lefel yr Awdurdod Lleol. Mae'r adroddiad hwn, a gomisiynwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC), yn rhoi adolygiad cryno o'r modd y caiff iechyd ei gynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ledled Cymru. Prif nod yr adroddiad hwn yw llywio dull UGAEIC o gefnogi llywodraethau lleol i integreiddio ystyriaethau iechyd mewn CDLlau. Bydd y canfyddiadau hefyd yn ychwanegu gwerth ar gyfer rhanddeiliaid eraill sy'n gweithio i wella iechyd a llesiant wrth iddo amlygu cyfleoedd ar gyfer cryfhau'r broses o gynnwys iechyd mewn cynlluniau lleol.

Bu i'r broses o adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol ledled Cymru ddatgelu nifer o gyfleoedd i atgyfnerthu eu rôl o ran hyrwyddo iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r CDLlau yn mynd i'r afael yn anuniongyrchol â ffactorau sy'n ymwneud ag iechyd trwy bolisïau cynllunio megis tai, trafnidiaeth a'r ansawdd amgylcheddol. Nifer bach o'r cynlluniau sy'n diffinio iechyd neu anghydraddoldebau iechyd yn benodol, ac nid oes yr un ohonynt yn cynnwys dangosyddion neu fesurau iechyd penodol. Er bod pob CDL yn ymgorffori elfennau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau cymdeithasol iechyd, megis mynediad at wasanaethau ac ansawdd tai, mae'r cysylltiadau hyn â chanlyniadau iechyd ymhlyg yn aml, yn hytrach nag wedi'u nodi'n glir. Canfu ein dadansoddiad fod CDLlau eisoes yn cynnwys nifer o elfennau a all gefnogi iechyd a llesiant y boblogaeth. Trwy sicrhau bod y goblygiadau iechyd hyn yn benodol, diffinio cysyniadau iechyd allweddol yn glir, ac ymgorffori dangosyddion iechyd mesuradwy, gallai CDLlau ddatblygu eu potensial i wella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled cymunedau Cymru mewn modd mwy effeithiol.

Cefndir

Mae'r system cynllunio yng Nghymru yn gweithredu ar dair lefel: cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol. Ar y lefel leol, mae Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) yn ddogfennau statudol sy'n llywio'r broses o ddatblygu a defnyddio tir yn ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'r cynllun datblygu'n darparu fframwaith polisi sy'n gwneud y canlynol:

- Nodi maint y twf ar gyfer dibenion preswyl, masnachol, diwydiannol a hamdden
- Nodi'r strategaeth ofodol a'r lleoliadau ar gyfer datblygiad yn y dyfodol, yn cynnwys safleoedd tai a chyflogaeth
- Nodi'r ddarpariaeth ar gyfer seilwaith newydd, yn cynnwys ffyrdd ac ysgolion
- Nodi tir i'w ddiogelu rhag cael ei ddatblygu
- Eirioli dros ddylunio da a chreu lleoedd

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dylanwadu'n sylweddol ar CDLlau. Mae'r Ddeddf hon yn gorchymyn cyrff cyhoeddus i fynd ar drywydd datblygiad cynaliadwy, gan anelu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r berthynas rhwng cynllunio gofodol ac iechyd a llesiant yn cael ei chydabod yn gynyddol. Mae CDLlau yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau iechyd a thegwch iechyd, megis tai a mynediad at wasanaethau. Fodd bynnag, mae rôl CDLlau o ran cefnogi iechyd a llesiant yn anghyson, gan gynnig cyfle i wella. Mae UGAEIC mewn sefyllfa dda i bontio'r bwlch hwn ac eiriol dros fynd ati mewn modd mwy cadarn i gynnwys iechyd a llesiant ac anghydraddoldebau iechyd mewn CDLlau.

Prif nod y prosiect hwn yw llywio dull UGAEIC o gefnogi awdurdodau lleol i integreiddio ystyriaethau iechyd wrth ddatblygu ac adolygu CDLlau. Bydd y prosiect hefyd yn darparu gwerth i randdeiliaid allweddol eraill sy'n gweithio i wella iechyd a llesiant.

- Disgrifio'r modd y mae iechyd a chysyniadau perthnasol yn cael eu cynnwys ar hyn o bryd, neu beidio, mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ledled Cymru.
- Nodi pocedi o arfer da a bylchau o ran cynnwys iechyd.
- Nodi cyfleoedd i gefnogi llywodraethau lleol/awdurdodau cynllunio lleol i gynnwys iechyd mewn CDLlau.

Amlinellir methodoleg y prosiect yn atodiad un.

Canfyddiadau

Mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad. Aeth y dadansoddiad ati i archwilio'r modd yr oedd pob CDLL yn mynd i'r afael ag iechyd a chysyniadau cysylltiedig trwy gyfrwng nifer o ddimensiynau allweddol: cyfeiriadau penodol at iechyd a'r diffiniad ohono, ymdrin â thegwch ac anghydraddoldebau iechyd, ystyried penderfyniadau cymdeithasol iechyd, y sylw a roddir i grwpiau poblogaethau gwahanol, y defnydd o Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, ac ymgorffori dangosyddion a mesuriadau cysylltiedig ag iechyd. Ar gyfer pob dimensiwn, rydym yn nodi dulliau gweithredu cyfredol, enghreifftiau nodedig o arfer da, a chyfleoedd i gryfhau'r broses o integreiddio iechyd i mewn i fframweithiau cynllunio yn y dyfodol.

Iechyd

Datgelodd yr adolygiad ddull esblygol o integreiddio iechyd ar draws y CDLLau. Mae chwech o'r 25 o CDLLau bellach yn cynnwys polisiâu iechyd pwrpasol¹, sy'n gam sylweddol tuag at roi cydnabyddiaeth ffurfiol i iechyd yn y broses cynllunio gofodol. Mae'r rhain yn amrywio o ran eu lleoliad a'u cwmpas, o bolisiâu strategol i bolisiâu manwl. Lle nad yw CDLLau yn cynnwys polisiâu iechyd penodol, mae'r nod o wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau yn aml yn cael ei integreiddio o fewn y fframwaith strategol ehangach a pholisiâu eraill. Nid oedd yr un CDLL yn cynnwys dangosyddion na mesuriadau iechyd penodol na chymau gweithredu penodol a oedd yn canolbwyntio ar iechyd. Roedd CDLLau mwy diweddar (2018-2023) yn amlygu mwy o integreiddio mewn perthynas ag ystyriaethau iechyd.

Er nad oeddent yn cynnwys diffiniadau penodol, roedd y rhan fwyaf o'r CDLLau yn cynnwys cyfeiriadau ymhlyg at gysyniadau cysylltiedig ag iechyd. Mae'n bosibl bod cynnwys iechyd yn gysyniad craidd y tu allan i gwmpas traddodiadol y cynlluniau hyn, ac mae rhai CDLLau yn cysylltu â pholisiâu a strategaethau allanol i esbonio'r diffyg. Mae Caerffili'n darparu sail resymegol fanwl ar gyfer pam nad yw iechyd yn ffocws canolog o'i CDLL, gan esbonio'r modd yr eir i'r afael ag ystyriaethau iechyd trwy gynlluniau cysylltiedig. Mae'n nodedig bod Ceredigion yn cysylltu ei CDLL â'i strategaeth ehangach, Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2008-2011, gan ddangos y modd y gall CDLLau gyd-fynd â rhwydwaith ehangach o bolisiâu a strategaethau er mwyn mynd i'r afael ag iechyd mewn modd cynhwysfawr.

Mae enghreifftiau Caerffili a Cheredigion yn amlygu pwysigrwydd lleoli CDLL o fewn fframwaith ehangach a chysoni â chynlluniau a pholisiâu cysylltiedig. Er ei fod yn allweddol, dim ond un agwedd ar wella iechyd a llesiant yw'r broses gynllunio; bydd cynlluniau a strategaethau eraill yn cefnogi mynd i'r afael â phroblemau iechyd ym mhob ardal.

1 CDLLau a chanddynt bolisi ar iechyd –

- Wrecsam – Polisi Strategol SP13: Iechyd a llesiant
- Pen-y-bont ar Ogwr – Polisi Strategol SP8: Iechyd a llesiant
- Caerdydd – Polisi Strategol KP14: Byw'n iach, a Pholisi manwl C6: Iechyd
- Castell-nedd Port Talbot – Polisi Strategol SP2: Iechyd
- Casnewydd – Polisi Strategol SP2: Iechyd, Polisi cyffredinol GP7: Egwyddorion datblygu cyffredinol – Amddiffyn yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd.
- Abertawe – Polisiâu Strategol SI 1: Iechyd a llesiant ac RP 1: Diogelu iechyd y cyhoedd ac adnoddau naturiol

Roedd chwe CDLL yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Yn achos y rheiny nad oeddent yn cyfeirio atynt, gellid esbonio hyn yn bennaf trwy amseriad eu cyhoeddi mewn perthynas â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y CDLL newydd ar gyfer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol hyn. Er enghraifft, mae CDLLau diweddar, megis rhai Pen-y-bont ar Ogwr (2021), Sir y Fflint (2023), a Wrecsam (2023), yn cyfeirio'n benodol at y Nodau Llesiant Cenedlaethol ac yn cyd-fynd â nhw. Mae hyn yn wahanol i gynlluniau cynharach megis rhai Blaenau Gwent (2012), Ceredigion (2011), a Chaerffili (2010), sy'n rhagddyddio'r Ddeddf ac felly heb ymgorffori'r fframweithiau cenedlaethol hyn.

Byddai gwneud iechyd yn fwy penodol, yn arbennig trwy ddiffiniadau clir a chanlyniadau mesuradwy, yn gwella gallu'r CDLLau i hyrwyddo iechyd a llesiant mewn modd effeithiol.

Tegwch Iechyd

Datgelodd y dadansoddiad amryw o dulliau o fynd i'r afael â thegwch iechyd ar draws y CDLLau, gyda'r mwyafrif (21 o'r 25) heb ddiffiniad penodol o degwch neu anghydraddoldebau iechyd. Mae nifer o awdurdodau wedi datblygu dulliau o ymgorffori ystyriaethau o ran tegwch iechyd.

Roedd diffiniad Caerdydd o anghydraddoldeb iechyd yn gryno a gallai fod yn llwybr rhwydd i'r ffyrdd y gallai'r CDLL gael ei ddefnyddio i wella canlyniadau iechyd o ystyried ei gyfeiriad at *"ardaloedd dan anfantais"*. Mae diffiniad Caerdydd fel a ganlyn: *"Felly mae anghydraddoldeb iechyd – sef gwahaniaeth y gellir ei osgoi rhwng y poblogaethau lleiaf a mwyaf breintiedig – yn amlwg mewn rhannau o'r boblogaeth. Mae'r cyfleoedd ar gyfer iechyd yn llai yn yr ardaloedd difreintiedig a chanlyniadau iechyd fel marwoldeb cardiofasgwlaidd yn waeth."*

Mae Wrecsam yn diffinio anghydraddoldebau iechyd yn benodol fel *"gwahaniaethau o ran statws iechyd neu yng ngwasgariad agweddau dylanwadol iechyd rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, gwahaniaethau o ran marwolaethau rhwng pobl hŷn a phoblogaethau iau, neu wahaniaethau mewn cyfraddau marwolaethau rhwng pobl o ddosbarthiadau cymdeithasol gwahanol. Mae iechyd, yn y cyd-destun hwn, yn cynnwys iechyd meddwl."*

Mae awdurdodau eraill yn amlygu dulliau gwahanol o ymgorffori ystyriaethau o ran tegwch. Er nad yw CDLL Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu diffiniad ffurfiol, ei nod penodol yw cyfrannu *"at gymdeithas decach ac iachach"* ac mae'r *"CDLL Newydd yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng cymunedau a chynorthwyo pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw sy'n foddhaus yn ddiwylliannol trwy wella mynediad at wasanaethau, cyfleoedd diwylliannol a gweithgareddau hamdden."* Yn yr un modd, mae CDLL Abertawe yn sefydlu amcanion ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd, ond gallai'r dulliau ar gyfer cyflawni'r rhain fod wedi cael eu cyfleu'n fwy clir.

Nododd yr adolygiad gyfleoedd i gryfhau'r gwaith o integreiddio tegwch iechyd ar draws pob CDLL. Tra bo nifer o'r cynlluniau'n mynd i'r afael yn benodol ag annhegwch iechyd trwy bolisiau sy'n targedu grwpiau poblogaeth neu ardaloedd penodol, mae yna le i ddatblygu fframweithiau mwy penodol ar gyfer ystyried tegwch iechyd wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Gallai hyn gynnwys diffiniadau cliriach, dangosyddion penodol sy'n canolbwyntio ar degwch, a chanllawiau manylach ar y modd y gellir defnyddio mecanweithiau cynllunio i leihau annhegwch iechyd.

Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd

Nododd yr adolygiad batrwm cyson o ran y modd y mae CDLLau yn mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd. Er bod pob un o'r CDLLau yn cynnwys penderfynyddion iechyd megis tai, cludiant, ac ansawdd amgylcheddol, yn anaml y caiff y cysylltiad rhwng yr elfennau cynllunio hyn a chanlyniadau iechyd ei egluro'n benodol. Roedd wyth CDLL yn cyfeirio'n uniongyrchol at benderfynyddion cymdeithasol iechyd, ac eto nid oedd i'r cyfeiriadau hyn ddiffiniadau clir na chyd-destun esboniadol o ran y modd y mae'r penderfynyddion hyn yn dylanwadu ar iechyd y boblogaeth.

Mae Caerdydd, er enghraifft, yn ymdrin â'r canlynol: *"Bydd Caerdydd yn cael ei gwneud yn lle mwy iach i fyw ynddo drwy geisio gostwng anghydraddoldeb iechyd drwy annog dulliau iach o fyw, ymdrin â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a darparu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gefnogi datblygiadau sy'n darparu ar gyfer teithio gweithredol, mannau gwyrdd hygyrch a defnyddiadwy, yn cynnwys lotments."*

Roedd yna gyfleoedd i gryfhau'r modd yr ymdrinnid â phenderfynyddion cymdeithasol ar draws yr holl CDLLau. Gallai cynlluniau yn y dyfodol gyfleu'r berthynas rhwng penderfyniadau cynllunio a chanlyniadau iechyd yn well trwy wneud y canlynol:

- Darparu diffiniadau clir o benderfynyddion cymdeithasol iechyd
- Esbonio'r modd y mae polisiau cynllunio penodol yn dylanwadu ar y penderfynyddion hyn
- Sefydlu cysylltiadau mwy penodol rhwng mecanweithiau cynllunio a'r effeithiau ar iechyd
- Datblygu dangosyddion i fonitro'r modd y mae penderfyniadau cynllunio yn effeithio ar benderfynyddion iechyd dros amser

Grwpiau Poblogaeth

Mae dyfnder a chwmpas y dadansoddiad demograffig yn amrywio'n sylweddol ar draws y CDLLau. Er bod pob cynllun yn cyfeirio at grwpiau poblogaeth penodol, yn arbennig preswylwyr oedrannus a chymunedau Sipsiwn/Teithwyr, mae'r ystyriaeth a roddir i ffactorau demograffig eraill yn anghyson. Ar draws pob CDLL, prin yw'r ystyriaeth o ddemograffeg o ran y rhywiau a nodweddion eraill poblogaethau a allai ddylanwadu ar ganlyniadau iechyd.

Nododd 11 o'r CDLLau fod rhai poblogaethau yn agored i ganlyniadau iechyd anghymesur a bod ganddynt ofynion gwahanol, o bosibl, i'r boblogaeth gyffredinol. Roedd y gydnabyddiaeth hon o anghenion gwahanol grwpiau gwahanol yn gysylltiedig ag ymwybyddiaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd. Roedd saith o'r 11 o CDLLau hyn yn crybwyll penderfynyddion cymdeithasol iechyd. Mae Bro Morgannwg yn darparu un o'r proffiliau economaidd-gymdeithasol mwy cynhwysfawr, gan gynnwys rhywfaint o wybodaeth am anghydraddoldebau iechyd a hyd oes, tra bo Castell-nedd Port Talbot yn nodi ffyrdd y gallai'r CDLL gynorthwyo i gefnogi cymunedau agored i niwed. Fodd bynnag, roedd ei boblogaethau'n cael eu disgrifio'n ddaearyddol yn unig.

Roedd yr anghenion yr ymdrinnid â nhw yn gyfyngedig – yn gyffredinol, nid oedd yna fawr ddim cyfeiriad at rywedd, LHDTCRh, cymunedau diwylliannol neu ieithyddol amrywiol, na chymunedau ymfudwyr. Roedd yna rywffaint o ymdriniaeth ag anghenion penodol pobl

oedrannus o ran tai a hygrychedd. Roedd pob CDLL yn crybwyll cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, ond nid o ran eu bregusrwydd posibl neu eu gofynion penodol; roeddent yn cael eu crybwyll oherwydd rhwymedigaeth ddeddfwriaethol y cyngor i ddarparu safleoedd i letya Sipsiwn a Theithwyr.

Byddai pob CDLL yn elwa o amlinellu demograffeg poblogaethau presennol ac yn y dyfodol ymhellach. Roedd rhai yn cynnwys cyfeiriadau at ddemograffeg newidiol yr ardal, ond gellid atgyfnerthu hyn trwy ddeall natur ddwyochrog y newid hwn – y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y gymuned, ond y gall y gymuned a'r CDLLau hefyd effeithio ar natur y newidiadau hyn.

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Roedd saith CDLL yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, gan amlygu cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ystyriaethau iechyd systematig wrth gynllunio. Yn nodedig, mae CDLL Sir Gaerfyrddin yn cynnwys esboniad o'r broses o Asesu'r Effaith ar Iechyd. Mae CDLLau yn aml yn cyfeirio at asesiadau effaith eraill, a gallant gynnal asesiad o'r effaith ar iechyd yn rhan o Asesiad Cynaliadwyedd Integredig. Mae hyn yn awgrymu bod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gyfarwydd â'r broses asesu effaith.

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn cynnwys deddfwriaeth sydd i ddod a fydd yn mandadu cyrff cyhoeddus i gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd yn achos penderfyniadau strategol. Bydd hyn yn berthnasol i awdurdodau cynllunio lleol sy'n llunio CDLLau ac yn gwneud penderfyniadau strategol eraill.

Dangosyddion a Mesurau

Mae fframwaith cynllunio Cymru yn sefydlu tri chategori pendant o ddangosyddion ar gyfer CDLLau. Mae dangosyddion cyd-destunol, sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, yn darparu data sylfaenol ar yr amodau y mae'r CDLL yn gweithredu ynddynt. Mae dangosyddion craidd, sy'n orfodol dan Reoliad 37 CDLLau, yn mesur agweddau sylfaenol ar y gwaith o weithredu'r cynllun, ac mae'n ofynnol i bob CDLL gynnwys o leiaf ddau ddangosydd o'r fath. Caiff dangosyddion lleol eu llunio'n benodol ar gyfer pob ardal gynllunio i adlewyrchu blaenoriaethau a chyd-destunau lleol penodol.

Mae ein dadansoddiad yn datgelu bwlch sylweddol o ran mesuriad iechyd-benodol ar draws yr holl CDLLau. Er bo'r cynlluniau'n gyson yn cynnwys mesurau sy'n gysylltiedig â ffactorau sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd – megis y cyflenwad tai, cyfraddau cyflogaeth, a mynediad at wasanaethau – ni chaiff y rhain eu fframio'n benodol na'u tracio o ran eu goblygiadau iechyd. Hyd yn oed yn y CDLLau sy'n amlwg yn integreiddio ystyriaethau iechyd, mae yna absenoldeb metrigau neu ddangosyddion iechyd-benodol i fonitro effeithiau perthnasol i iechyd penderfyniadau cynllunio.

Mae'r canfyddiad hwn yn cynnig cyfle clir i atgyfnerthu'r fframwaith monitro ar gyfer iechyd ym maes cynllunio. Gallai'r gofynion o ran y dangosyddion craidd, yn arbennig, gael eu gwella i gynnwys metrigau neilltuol sy'n berthnasol i iechyd neu gysylltiadau penodol rhwng dangosyddion presennol a chanlyniadau iechyd. Byddai integreiddio o'r fath yn galluogi awdurdodau lleol i dracio'n well y modd y mae eu penderfyniadau cynllunio yn dylanwadu ar iechyd y boblogaeth dros amser, ac yn darparu tystiolaeth i lywio dulliau cynllunio yn y dyfodol.

Casgliad a chamau gweithredu a awgrymir

Mae'r polisi cenedlaethol a'r fframwaith deddfwriaethol yn sefydlu gofynion statudol clir ar gyfer cynnwys iechyd a llesiant ar ffurf nodau allweddol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau). Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn creu cysylltiad penodol â'r broses o gyflawni'r nodau datblygu cynaliadwy trwy sicrhau cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn nodi saith nod llesiant a phum ffordd o weithio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol sefydlu amcanion llesiant ac integreiddio'r pum ffordd hyn o weithio trwy gydol y broses o baratoi'r CDL. Mae gan Bolisi Cynllunio Cymru (Rifyn 12) ffocws clir ar greu gofodau iach trwy gynllunio a chreu lleoedd. Dylai CDLlau gyfeirio at asesiadau o anghenion iechyd a chynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Lleol, a chynnwys dolenni iddynt, a hynny am fod y rhain yn darparu gwybodaeth bwysig am flaenoriaethau iechyd poblogaethau lleol a dull y cyrff cyhoeddus o fynd i'r afael â'r anghenion.

Mae ein hadolygiad yn amlygu bwlch sylweddol rhwng y gofynion polisi hyn a'r modd y cânt eu gweithredu'n ymarferol mewn CDLlau. Nid yw'r un Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ymgorffori nodau ac egwyddorion iechyd a llesiant yn llwyr yn ei gynlluniau. Ymddengys bod y bwlch hwn o ran gweithredu yn deillio'n rhannol o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, lle mae yna ddiffyg cysondeb nodedig rhwng y nodau llesiant sy'n canolbwyntio ar bobl a'r dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar dwf economaidd. Er bod amcanion y fframwaith polisi cenedlaethol yn galw am ddatblygiad cynaliadwy i gyflawni llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, mae'r canllawiau gweithredol yn parhau i dueddu'n bennaf tuag at fetrigau cynllunio confensiynol.

O ystyried y bwlch a nodwyd rhwng gofynion polisiâu a'r broses ymarferol o'u rhoi ar waith mewn CDLlau, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC) mewn sefyllfa unigryw i atgyfnerthu'r gwaith o integreiddio ystyriaethau iechyd a llesiant i mewn i'r broses cynllunio lleol. Mae angen i hyn gael ei wneud ochr yn ochr â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol eraill sy'n gweithio i wella iechyd a llesiant. Gan adeiladu ar ei harbenigedd o ran asesu'r effaith ar iechyd a sefydlu perthnasoedd â'r sectorau iechyd a chynllunio, fel ei gilydd, gall UGAEIC wella'r gwaith cysylltiedig ag iechyd a CDLlau trwy weithio mewn partneriaeth ag eraill.

Rhestrir isod awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu a fyddai'n cefnogi'r gwaith o gynnwys iechyd a llesiant fel elfen allweddol o CDLlau a pholisi cynllunio ymhellach. Dylai'r argymhellion hyn gael eu hystyried trwy iechyd Cyhoeddus Cymru weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

1. Fframweithiau a chanllawiau clir ar bolisiau lefel genedlaethol

- Hyrwyddo ffocws mwy cadarn ar iechyd, llesiant a thegwch yn fersiwn nesaf y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu
- Eiriol dros sicrhau bod diffiniadau a dangosyddion Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd a thegwch iechyd yn ddiamwys yn Rheoliadau CDLlau
- Hyrwyddo ffocws cliriach ar iechyd a llesiant yn fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol diweddaraf Cymru, gan gysylltu egwyddorion cynllunio ar sail tystiolaeth â chanlyniadau iechyd, llesiant a thegwch.

2. Cefnogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i gryfhau'r broses o integreiddio iechyd i mewn i CDLlau

- Dylunio templedi i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnwys polisiau iechyd pwrpasol mewn CDLlau, ac ar gyfer canllawiau cynllunio ategol lle maent yn gysylltiedig yn benodol â pholisiau iechyd
- Hyrwyddo a darparu canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ddatblygu strategaethau i integreiddio iechyd i mewn i gynllunio gofodol, e.e. cludiant llesol, mannau gwyrdd, tai iach
- Annog rhagor o Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a'r broses o'u hintegreiddio i mewn i'r gwaith o ddatblygu a gweithredu CDLlau, yn benodol mewn perthynas ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau
- Cefnogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i nodi a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau poblogaethau gwahanol, yn arbennig cymunedau wedi'u hymyleiddio ac agored i niwed.

3. Meithrin gallu ac adeiladu adnoddau


- Gweithredu camau targededig i feithrin gallu a sicrhau addysg ar gyfer cynllunwyr Awdurdodau Cynllunio Lleol ac aelodau etholedig lleol
- Creu a chynnal ystorfa o enghreifftiau o arfer da
- Darparu canllawiau ymarferol ar ddangosyddion iechyd a thegwch iechyd, lle bo hynny'n briodol

4. Monitro'r broses o integreiddio iechyd i mewn i CDLlau

- Sefydlu fframwaith monitro systematig
- Tracio'r broses o integreiddio a gweithredu ystyriaethau iechyd ar draws CDLlau
- Monitro a thracio effaith dulliau o integreiddio iechyd
- Rhannu dysg ac argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus

Trwy'r camau gweithredu cydgysylltiedig hyn, gall UGAEIC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, weithio gyda phartneriaid i helpu i drawsnewid y modd y caiff iechyd a llesiant eu hintegreiddio i mewn i brosesau cynllunio gofodol yng Nghymru. Er bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a pholisi cynllunio cenedlaethol yn darparu sylfaen ddeddfwriaethol gadarn ar gyfer cynllunio iechyd-integredig, mae trosi'r uchelgeisiau hyn yn arfer lleol yn gofyn am gymorth ac arweiniad pwrpasol. Byddai llwyddo yn yr ymdrech hon nid yn unig yn cryfhau effeithiolrwydd CDLlau o ran hybu iechyd a llesiant y boblogaeth, byddai hefyd yn datblygu safle Cymru fel arweinydd byd-eang o ran cynllunio datblygiad cynaliadwy sydd wir yn cyflawni pob agwedd ar lesiant – economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol.

Atodiad 1: Dulliau



Dulliau

I ymchwilio i'r broses o ymgorffori iechyd o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ledled Cymru, dyluniodd y tîm ymchwil broses echdynnu a dadansoddi, a hynny mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Lluniwyd templed o daenlen echdynnu er mwyn safoni'r broses o gasglu data. Roedd y templed hwn yn rhoi manylion categorïau penodol o wybodaeth berthnasol i iechyd i'w nodi ym mhob CDLl.

Yn achos pob ardal llywodraeth leol, daethpwyd o hyd i'r CDLl, ei lawrlwytho, a'i adolygu yn y lle cyntaf i feithrin dealltwriaeth gychwynnol o'r CDLl penodol hwnnw a'i flaenoriaethau. Yna, chwiliwyd am eiriau allweddol targededig ar gyfer pob categori a ddiffiniwyd yn y templed echdynnu. Aed ati mewn modd systematig i echdynnu dyfyniadau perthnasol a gwybodaeth gritigol, a'u cofnodi ar y daenlen.


I sicrhau dealltwriaeth gyson o'r gofynion echdynnu ymhlith holl aelodau'r tîm ymchwil, cynhaliwyd ymarfer prawf gan ddefnyddio CDLlau dau Awdurdod Cynllunio Lleol – Sir Fynwy a Wrecsam. Aeth pob aelod o'r tîm ati'n annibynnol i echdynnu data a'u rhoi yn y daenlen, a chafodd y canlyniadau eu cymharu i sicrhau cysondeb cyn symud ymlaen at weddill y CDLlau.

Aed ati i groesgyfeirio'r templed echdynnu gan ddefnyddio'r llwyfan deallusrwydd artiffisial (AI) SciSpace. Bu i'r broses ddilysu hon gadarnhau trylwyredd y dadansoddiad â llaw, gan ddarparu dirnadaethau mwy manwl na'r adolygiad awtomataidd.

Yna, cafodd y data eu trefnu i lunio dogfen ar ffurf adroddiad. Gofynnwyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru am gyd-destun, yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad yn gyfredol ac yn gryno. Yna, cynhaliwyd dadansoddiad manwl o'r adroddiad, a oedd yn golygu nodi tueddiadau, cryfderau, a gwendidau ar draws y CDLlau.


Mae'r adroddiad hwn wedi asesu statws y Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru hyd at fis Hydref 2024.

Atodiad 2: Adolygiad cryno o'r CDLlau



CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn

Dolen i'r CDLl >>>



Gwybodaeth gefndir

Mae'r CDLl hwn yn gydweithrediad rhwng Cynghorau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.

Cyhoeddwyd y CDLl yn 2017 a bwriedir ei adnewyddu yn 2026. Mae'r CDLl newydd ar y gweill ar hyn o bryd a bydd yn cwmpasu'r cyfnod 2024-2039.



Mae gan Ynys Môn boblogaeth o **68,900** (Cyfrifiad 2021). Mae gan Wynedd boblogaeth o **117,400** (Cyfrifiad 2021). Mae hyn yn boblogaeth gyfunol o **186,300**.

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLl yn crybwyll rhai poblogaethau, ond mewn modd disgrifiadol yn unig. Crybwyllir pobl sy'n byw ag anabledd a'u hanghenion unigryw o ran mynediad mewn perthynas â thrafnidiaeth (tud. 50). Crybwyllir hefyd anghenion pobl â phramiau a phlant ifanc o ran mynediad. Mae'n crybwyll *"llety myfyrwyr, tai i'r henoed, Sipsiwn a Theithwyr, llety â chymorth, cartrefi nyrsio, preswyl a thai gofal ychwanegol, anghenion pobl sydd ag anableddau"* (tud. 142).

Mae Atodiad 3 yn darparu *"proffil ystadegol"* o'r ardal. Mae hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r boblogaeth yn ôl oedran, rhywedd, crefydd, ynghyd â statws a gwybodaeth am gyflogaeth.

Dealltwriaeth CDLl Gwynedd a Môn o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLl yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd. Cyfeirir at iechyd yn y CDLl drwyddo draw, ond ni ddiffinnir yr hyn a olygir wrth fod yn iach neu'n iachach.

Rhoddir ystyriaeth i effeithiau anffafriol posibl datblygiad ar iechyd. Mae *"Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn yn anelu i roi cynlluniau a phrosiectau ar waith a fydd yn hyrwyddo cymunedau ffyniannus, iach a diogel"* (tud. 25). Rhaid i bob cynnig helpu i greu *"amgylcheddau iach a bywiog, ac ... ystyried iechyd a lles defnyddwyr y dyfodol"* (tud. 62).

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd. Mae yna adran o'r enw *"Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog"*, fodd bynnag, mae hon yn ymwneud â'r Gymraeg, seilwaith, TG a thrafnidiaeth gynaliadwy, heb unrhyw gysylltiadau penodol ag iechyd.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLl.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLI Gwynedd a Môn

Nid oes yna ddiffiniad o degwch neu gydraddoldeb iechyd. Crybwyllir tegwch mewn perthynas â darparu mynediad cyfartal at dai i Sipsiwn/Deithwyr ac aelodau o Gymunedau sydd wedi ymgartrefu.

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLI Gwynedd a Môn

Mae'r CDLI yn ymdrin â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd heb eu henwi fel y cyfryw. Crybwyllir amrywiol benderfynyddion yn y ddogfen drwyddi draw, ond ni chânt eu henwi'n benderfynyddion cymdeithasol iechyd na'u cysylltu ag iechyd. Mae'r CDLI *"yn cydnabod bod cynllunio a'r ffordd y defnyddir tir yn cyfrannu at ddatblygu economaidd, at gadw asedau naturiol Cymru ac at iechyd, lles ac ansawdd bywyd unigolion a chymunedau."* (adran 2.2 tud. 9) Mae yna ffocws ar y Gymraeg, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar yr ymdeimlad o gymuned a'r economi leol.

Yn achos pob cynnig, rhaid sicrhau *"Bod asesiad cynhwysfawr o ardrawiadau amgylcheddol (tirwedd, adeiledig, hanesyddol a naturiol), cymdeithasol (gan gynnwys iechyd a mwynderau), ieithyddol a diwylliannol, cludiant ac economaidd (positif, negyddol a chronnol) o'r cynnig yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredu a'r cyfnodau dadgomisiynu ac adfer (os yw hynny'n berthnasol) yn cael ei ddarparu, yn ogystal â mesurau i'w cyflawni lle mae'n briodol i osgoi, lleihau, lleddfu a/neu ddigolledu'r niwed a achosir"* (tud. 80).

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ar gyfer y CDLI hwn.

Fodd bynnag, mae'r CDLI yn crybwyll Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, asesiad o'r effaith ar briffyrdd, Asesiad o'r Effaith Weledol ac ar y Dirwedd, asesiad o'r effaith ar fanwerthu, ac Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth. Mae hyn yn dangos bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi dod i gysylltiad â'r broses Asesu Effaith ac yn darparu cyfle i iechyd gael ei integreiddio i mewn i CDLlau yn y dyfodol.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLI Gwynedd a Môn yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Gallai hyn fod yn ganlyniad i amseriad y ddogfen (cyhoeddwyd yn 2017. Sefydlwyd y Nodau Llesiant yn 2015).

Cyfleoedd ar gyfer iechyd yn CDLI Gwynedd a Môn

Diffiniad penodol o'r hyn yw/nad yw iechyd a nodi rhai metrigau neu ddangosyddion allweddol sy'n gysylltiedig ag iechyd. Diffiniad penodol o degwch iechyd, ynghyd ag ymdrin â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a chysylltiadau rhwng iechyd a phenderfynyddion cymdeithasol penodol (y cyflenwad tai, cyflogaeth).

Un o gryfderau'r CDLI hwn yw'r dadansoddiad manwl o'r boblogaeth leol. Fodd bynnag, mae yna gyfle i gryfhau hyn ymhellach trwy amlinellu anghenion penodol rhai is-setiau o'r boblogaeth.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL hwn yn 2012 a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2021. Mae'r CDLL newydd ar y gweill ac yn cwmpasu'r cyfnod 2018-2033.

Mae gan Flaenau Gwent boblogaeth o **66,900** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Ymdrinnir â nodweddion y boblogaeth mewn modd disgrifiadol. Nid oes unrhyw sôn am ddemograffeg o ran y rhywiau. Nid oes yna unrhyw ymdriniaeth o gymunedau wedi'u hymyleiddio neu gymunedau agored i niwed a'u hanghenion penodol.

Crybwyllir anghenion y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr o ran tai. Crybwyllir anabledd mewn perthynas â mynediad i dai a chanol trefi. Caiff mudo ei grybwyll ddim ond mewn perthynas â phobl yn gadael yr ardal. Mae'r CDLL yn cyfeirio unwaith at anghenion amrywiol gymunedau trwy nodi, *"Wrth benderfynu ar geisiadau, gall y Cyngor sicrhau fod datblygiadau'n rhoi ystyriaeth i anghenion pobl gyda gofynion mynediad arbennig megis plant, pobl ifanc, yr henoed a phobl gyda gallu symud cyfyngedig"* (tud. 55).

Mae'r CDLL yn nodi bod lefelau afiechyd a salwch hirdymor ym Mlaenau Gwent ymhlith yr uchaf yng Nghymru (tud. 37).

Dealltwriaeth CDLL Blaenau Gwent o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLL yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd.

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Mae yna sawl cyfeiriad at y lefelau uchel o afiechyd yn y boblogaeth. Mae yna sawl cyfeiriad at y ffordd y gall mannau gwyrdd gael eu defnyddio i wella iechyd a llesiant cymdeithasol.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Blaenau Gwent

Nid yw'r CDLL yn darparu diffiniad o degwch neu anghydraddoldebau iechyd, ond cânt eu crybwyll bob hyn a hyn. *"Mae Cynllun Gofodol Cymru (Gorffennaf 2008) yn dynodi Blaenau Gwent o fewn De-ddwyrain Cymru – Rhanbarth y Brifddinas, fydd yn gweithredu fel rhanbarth dinas gyda rhwydwaith, sy'n gostwng diffyg cydraddoldeb"* (tud. 2). *"Yng nghyd-destun Cymru, mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol ... Mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal"* (tud. 3), gan *"[g]ryfhau darpariaeth ar gyfer cydweithredu trawswladol, arloesedd cymdeithasol, cydraddoldeb rhyw, a chyfle cyfartal"* (tud. 6). Nodir mai un o amcanion allweddol Strategaeth Dai Leol Blaenau Gwent (sy'n strategaeth gysylltiedig) yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb (tud. 11).

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLI Blaenau Gwent

Crybwyllir rhai penderfynyddion cymdeithasol heb eu labelu fel y cyfryw. Mae yna ymdrechion i gysylltu'r penderfynyddion hyn â chanlyniadau iechyd. Ceir nifer o gyfeiriadau at lygredd aer, halogiad daear, ac effaith y rhain ar iechyd y cyhoedd. Ystyrir bod cyfleusterau hamdden a chymunedol lleol yn hanfodol i hybu iechyd.

"Drwy gydweithio, erbyn 2021 daw Blaenau Gwent yn rhwydwaith o gymunedau cynaliadwy a bywiog lle mae gan bobl y sgiliau, yr wybodaeth a'r cyfleoedd i sicrhau gwell ansawdd bywyd a bydd preswylwyr yn byw mewn cymunedau diogel, iach a ffyniannus, gyda mynediad i ystod o dai fforddiadwy ansawdd da a chanol trefi llewyrchus. Caiff yr amgylchedd a hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol unigryw Blaenau Gwent eu diogelu a'u gwella i greu lle bydd pobl eisiau byw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef." Gweledigaeth ac Amcanion, tud. 19.

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd at ddiben y ddogfen hon.

Mae'r CDLI yn crybwyll Asesiad o'r Effaith ar Gymdeithas ac Iechyd, yn ogystal ag asesiad o'r effaith ar fanwerthu, gan ddangos bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi dod i gysylltiad â'r broses Asesu Effaith yn flaenorol.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLI Blaenau Gwent yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Gallai hyn fod yn ganlyniad i amseriad y ddogfen (cyhoeddwyd yn 2012. Sefydlwyd y Nodau Llesiant yn 2015).

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLI Blaenau Gwent

Mae'r CDLI yn cynnwys ymdrech amlwg i integreiddio iechyd i mewn i'r broses gynllunio. Byddai labelu penderfynyddion cymdeithasol iechyd yn benodol, ymdrin ag anghenion penodol amrywiol grwpiau poblogaeth, a chynnwys diffiniad penodol o iechyd a thegwch yn clymu'r gwaith a wnaed eisoes at ei gilydd i ystyried iechyd yn y ddogfen drwyddi draw.

Pen-y-bont ar Ogwr

Dolen i'r CDLl >>>

Gwybodaeth gefndir

Mae'r LDP hwn yn y "*LDP amgen*". Cyhoeddwyd yn 2024, mae ar fin cael ei adnewyddu yn 2033.



Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr boblogaeth o **145,500** (Cyfrifiad 2021).



Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLl yn crybwyll y boblogaeth oedrannus sylweddol a phwysigrwydd cydbwysu hyn â denu a chynnal amrywiaeth o oedrannau a grwpiau demograffig yn yr ardal (tud. 29).

Mae'r CDLl yn crybwyll y gymuned Sipsiwn/Teithwyr a'i hanghenion penodol o ran defnydd tir, ynghyd â'r Deddfau perthnasol sy'n gysylltiedig â hyn. Nid yw'n cynnwys demograffeg o ran y rhywiau na chyfeiriad pellach at boblogaethau agored i niwed a phoblogaethau a ymleiddiwyd.

Dealltwriaeth CDLl Pen-y-bont ar Ogwr o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLl yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd. Rhoddir ystyriaeth i natur amlweddol iechyd, ac mae'r CDLl yn ystyried bod "*iechyd a llesiant pobl yn hanfodol*".

"Mae'r CDLl hwn yn seiliedig ar lefel gytbwys a chynaliadwy o dwf economaidd a fydd yn hwyluso'r broses barhaus o weddnewid y Fwrdeistref Sirol yn rhwydwaith o gymunedau diogel, iach a chynhwysol a fydd yn cysylltu'n ehangach â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe." (tud. 48) *"Ers troad y mileniwm, mae Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fwrdeistref Sirol ehangach wedi bod ar daith i ehangu mynediad at wasanaethau allweddol, gwella ansawdd yr amgylchedd ffisegol a gwella ansawdd bywyd trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr."* (tud. 32)

Caiff iechyd ei ystyried yn y ddogfen drwyddi draw, sydd hefyd yn cynnwys adran benodol ar iechyd – SP8: Iechyd a Llesiant, "*Bydd anghydraddoldeb iechyd yn cael ei leihau a bydd dewisiadau iach a ffyrdd iach o fyw yn cael eu hybu trwy sicrhau bod y canlynol yn wir am gynigion datblygu: 1) Maent yn adlewyrchu dosbarthiad gofodol yr angen am ddarpariaeth gofal iechyd, gan sicrhau bod cynigion o'r fath yn hygyrch trwy ddulliau teithio heblaw am deithio mewn ceir a bod ganddynt y potensial i gael eu rhannu gan wahanol ddarparwyr gwasanaethau; 2) Maent yn creu lleoedd cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion creu lleoedd (gweler SP3) er mwyn rhoi cymorth i liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd; 3) Maent wedi'u hategu gan seilwaith cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol priodol (gweler SP9 a SP10); 4) Maent wedi'u hategu gan Asesiad o'r Effaith ar Iechyd lle y bo'n briodol (mae'n rhaid bod Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ategu datblygiadau mawr, a hwnnw'n dangos sut y bydd y cynnig yn arwain at effeithiau buddiol (ac yn osgoi effeithiau andwyol) ar benderfynyddion allweddol iechyd yn y Fwrdeistref Sirol); 5) Maent yn hybu ffordd iach o fyw trwy ddefnyddio'r amgylchedd ffisegol ac adeiledig, yn enwedig cynnal a/neu wella hyd a lled, ansawdd a chysylltedd y Rhwydweithiau Teithio Llesol a Seilwaith Gwyrdd; a 6) Maent yn gwarchod (a, lle y bo'n bosibl, yn gwella) diogelwch personol, diogelwch eiddo a chydnerthedd ac nid ydynt yn arwain at risg sylweddol i fywyd, iechyd na llesiant dynol, yn enwedig o ran llygredd aer, sŵn, golau, dŵr neu dir."* (tud. 121)

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLl.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Pen-y-bont ar Ogwr

Nid oes yna ddiffiniad penodol o degwch neu gydraddoldeb iechyd, fodd bynnag mae'r CDLL yn ymdrin â "[ch]yfrannu at gymdeithas decach ac iachach" o dan Ffyniant i Bawb (tud. 25). Mae wedyn yn nodi bod y "CDLL Newydd yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng cymunedau a chynorthwyo pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw sy'n foddhaus yn ddiwylliannol trwy wella mynediad at wasanaethau, cyfleoedd diwylliannol a gweithgareddau hamdden" (tud. 97).

Mae Adran SP8, tud. 121, yn esbonio'r modd y bydd datblygiadau'n cael eu defnyddio i leihau anghydraddoldeb iechyd. (Dyfynnwyd uchod)

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Pen-y-bont ar Ogwr

Mae CDLL Pen-y-bont ar Ogwr yn crybwyll penderfynyddion cymdeithasol iechyd, ond dim ond yn SP8 y mae'n eu galw'n hyn, a hynny trwy ddweud bod yn rhaid i gynigion datblygu gael eu "hategu gan Asesiad o'r Effaith ar Iechyd lle y bo'n briodol (mae'n rhaid bod Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ategu datblygiadau mawr, a hwnnw'n dangos sut y bydd y cynnig yn arwain at effeithiau buddiol (ac yn osgoi effeithiau andwyol) ar benderfynyddion allweddol iechyd yn y Fwrdeistref Sirol)" (tud. 121). Nid yw'n amlinellu'r hyn a olygir wrth benderfynydd iechyd.

Mae hefyd yn ymdrin â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd fel a ganlyn, heb eu henwi'n benodol fel y cyfryw na disgrifio'r modd y maent yn gysylltiedig ag iechyd: "Mae angen cynnal cydbwysedd iach ym mhob anheddiad rhwng pobl iau, pobl o oedran gweithio a phobl sydd wedi ymddeol. Bydd hyn yn helpu i sbarduno cymunedau cynaliadwy, sicrhau bod digon o drigolion economaidd weithgar ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i gynnal cyflogwyr lleol, ac yn helpu i gynnal seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau" (tud. 15).

"Mae Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 wedi ei osod yng nghyd-destun gweledigaeth a fydd yn helpu i ddarparu lleoedd cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2040, drwy gefnogi'r gwaith o wneud lleoedd a sicrhau bod ein dewisiadau'n cyfeirio datblygiadau i'r mannau cywir, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau, creu a chynnal cymunedau iach hygyrch, diogelu ein hamgylchedd a chefnogi ffyniant i bawb" (tud. 19)

"Bydd datblygiadau â chysylltiadau da'n helpu i roi hwb i wella iechyd a llesiant trwy annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iachach ac egniol o fyw, gan hefyd gyfrannu at greu lle llwyddiannus" (tud. 22).

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i'w integreiddio i mewn i CDLL Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hon yn ddogfen ar wahân. Roedd y CDLL hefyd yn ymdrin â'r gofyniad i gynigion datblygu yn y dyfodol gynnal Asesiad o'r fath.

Mae'r CDLL hefyd yn crybwyll Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith Weledol ar y Dirwedd, Asesiad Effaith mewn perthynas â Datblygu ac Anghenion Twristiaeth, Asesiad o'r Effaith Ecolegol ar Lefel Prosiect, Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth, Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth, ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (tud. 206).

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Roedd CDLL Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys sawl cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer iechyd yn CDLL Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r CDLL hwn wedi gwneud ymdrech ymwybodol i integreiddio iechyd i mewn i'r rhan fwyaf o'r meysydd mewn modd pendant a hawdd ei ddeall. Yn yr un modd â'r CDLLau eraill, byddai'n elwa o ddiffiniadau penodol o iechyd a thegwch iechyd, ac o wneud cysylltiadau ag anghenion poblogaethau agored i niwed neu boblogaethau a ymleiddiwyd.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLl hwn yn 2010, a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2021. Mae'r CDLl newydd ar y gweill a bydd yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2035.



Mae gan Gaerffili boblogaeth o **175,900** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLl yn disgrifio elfennau o'r boblogaeth heb esbonio beth y mae hyn yn ei olygu i'r cynllun, ac nid oes yna unrhyw gysylltiadau â chanlyniadau iechyd.

Mae'r CDLl yn nodi Sipsiwn a Theithwyr, ac yn datgan bod y boblogaeth hyn wedi cynyddu a bod nifer y plant sy'n cael eu geni fesul teulu wedi gostwng. Mae'n amlinellu bod 11 o'r 110 o'r ardaloedd ystadegol yn y CDLl yn y 10% uchaf o ardaloedd difreintiedig yng Nghymru.

Mae'n amlinellu bod 72.3% o'r preswylwyr sydd o oedran gweithio yn economaidd weithredol (sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol), a bod 39.8% heb unrhyw gymwysterau – sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid yw'n cynnwys demograffeg o ran y rhywiau na disgrifiadau o anghenion penodol poblogaeth Caerffili.

Dealltwriaeth CDLl Caerffili o iechyd a chysylltiadau ag iechyd

Nid yw'r CDLl yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd.

Mae'r CDLl yn cynnwys disgrifiad o'r modd y mae iechyd yn gweithio yng nghyd-destun y CDLl hwn a'i gysylltiad â strategaethau eraill sydd â ffocws cryfach ar iechyd a llesiant: *"Bydd y CDLl yn hwyluso gwreiddi'r elfennau defnydd tir, yn enwedig yn y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Strategaeth Amgylchedd Fyw a'r Dewis Synhwyrol (y Strategaeth Adfywio)"* (tud. 16). Ymdrinnir ag iechyd yn yr ystyr ei fod yn ganlyniad i ragor o fannau gwyrdd a llwybrau beicio hygyrch.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLl.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLl Caerffili

Nid yw'r CDLl yn darparu diffiniad o degwch neu gydraddoldeb iechyd.

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLl Caerffili

Nid yw CDLl Caerffili yn cyfeirio'n benodol at benderfynyddion cymdeithasol iechyd. Mae'n nodi bod *"cynnwys tir agored ffurfiol ac anffurfiol mewn datblygiadau newydd yn bwysig"* oherwydd *"mae'n diwallu anghenion hamdden trigolion lleol, ac mae'r gweithgaredd corfforol a ddaw yn sgil cyfleoedd ymarfer yn gwella iechyd pobl; mae'n gwella ansawdd bywyd trigolion ac yn cyfrannu at eu hymdeimlad o les; gall gyfrannu yn gadarnhaol at yr amgylchedd adeiledig,"* a gall gyfrannu at fioamrywiaeth, *"cadwraeth natur a'r dirwedd, ansawdd aer a gwarchod dŵr daear"* (tud. 33).

Mae'n amlinellu'r nod o *"[g]yfrannu at wella iechyd y cyhoedd, drwy hybu datblygiadau tir sy'n*

cyfrannu at les a ffyrdd iachus o fyw” (tud. 20). Cynigir Canolfan Adnoddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Rhymni i wasanaethu gogledd y Fwrdeistref (tud. 63).

Iechyd Strategol – Asesiad o’r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd yr un Asesiad o’r Effaith ar Iechyd at ddibenion y CDLL hwn. Yr unig fath o asesiad effaith a grybwyllir yn y ddogfen hon yw Asesiad o’r Effaith ar Drafnidiaeth.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Caerffili yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae hyn yn debygol o fod yn ganlyniad i amseriad y ddogfen (cyhoeddwyd yn 2010. Sefydlwyd y Nodau Llesiant yn 2015).

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Caerffili

Un o gryfderau’r CDLL hwn yw’r esboniad a roddir ynghylch pam nad yw iechyd yn ffocws allweddol iddo, a’r modd y rhoddir ystyriaeth i iechyd ac y caiff ei gysylltu trwy gynlluniau eraill (gweler y dyfyniad o dan ‘dealltwriaeth o iechyd’). Mae’r CDLL yn cyfleu ei ddull o ystyried iechyd mewn modd effeithiol trwy esbonio’r modd yr eir i’r afael â materion sy’n ymwneud ag iechyd trwy gynlluniau a pholisïau ategol. Bydd ehangu ar hyn yn sefydlu rôl y CDLL yn well ymhlith cynlluniau eraill ac yn galluogi defnyddwyr i ddod o hyd i’r strategaeth gywir ar gyfer iechyd yn ardal y cyngor hwn.

Byddai’r CDLL hwn hefyd yn elwa o ddiffiniadau clir o Iechyd a Phenderfynyddion Cymdeithasol Iechyd, yn ogystal â chyfeiriadau penodol at rôl y CDLL wrth fynd i’r afael ag iechyd ac amddifadedd yn yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae yna hefyd le i archwilio anghenion penodol rhannau o’r boblogaeth ymhellach, ynghyd â chysylltiadau â rôl y CDLL o ran mynd i’r afael â nhw.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL yn 2016 a bwriedir ei adnewyddu yn 2026. Mae'r CDLL newydd ar y gweill ac yn cwmpasu'r cyfnod 2021-2036.

Adeg cyhoeddi'r CDLL hwn, ystyrid Caerdydd yn Ddinas Iach yr WHO. Nid oes ganddi'r statws hwn mwyach, ond cyfeirir ati fel y cyfryw yn y ddogfen drwyddi draw.



Mae gan Gaerdydd boblogaeth o **362,300** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLL yn amlinellu mai un o flaenoriaethau allweddol y cynllun yw *"Gwneud y ffordd y darparwn ein gwasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn fwy effeithiol."* Nid oes yna ddisgrifiad pellach o'r hyn y mae unigolyn bregus yn ei olygu nac o anghenion neilltuol grwpiau penodol. Mae'n crybwyll Sipsiwn, ac yn crybwyll pobl oedrannus mewn modd disgrifiadol, ond ni cheir unrhyw ddadansoddiad pellach nac ystadegol o'r boblogaeth, ac ni chyfeirir at ddemograffeg o ran y rhywiau.

Mae'n crybwyll *"Darparu ystod a dewis o gartrefi newydd o wahanol ddaliadaeth, math a lleoliad, sy'n cwrdd ag anghenion penodol megis darparu tai fforddiadwy, lle byw i deuluoedd, tai i'r henoed, yr anabl a myfyrwyr a mannau aros i'r gymuned sipsiwn a theithwyr"* (tud. 31), ond ni cheir unrhyw wybodaeth bellach am anghenion y poblogaethau hyn.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd o iechyd a chysylltiadau ag iechyd

Nid yw'r CDLL yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd.

Nod y Polisi yw gwella iechyd poblogaeth Caerdydd trwy geisio sicrhau cyfleusterau iechyd newydd mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf, ei gwneud yn ofynnol bod yr amgylchedd adeiledig yn meithrin ffyrdd iach o fyw, a sicrhau bod iechyd yn ystyriaeth allweddol mewn datblygiadau newydd (tud. 211). Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r cyfeiriad 'y gall ystyriaethau iechyd fod yn ystyriaethau materol wrth wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio' ac yn derbyn bod effaith datblygiadau ar iechyd pobl yn elfen allweddol o ddatblygu cynaliadwy, ac y bydd ystyried hyn yn codi unrhyw faterion sylweddol y mae angen eu hystyried (tud. 112).

Mae yna adran ar wahân ar iechyd, C6: Iechyd (o dan yr is-bennawd Cymuned).

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Caerdydd

Mae CDLL Caerdydd yn darparu diffiniad o anghydraddoldeb iechyd: *"Felly mae anghydraddoldeb iechyd – sef gwahaniaeth y gellir ei osgoi rhwng y poblogaethau lleiaf a*

mwyaf breintiedig – yn amlwg mewn rhannau o'r boblogaeth. Mae'r cyfleoedd ar gyfer iechyd yn llai yn yr ardaloedd difreintiedig a chanlyniadau iechyd fel marwoldeb cardiofasgwlaidd yn waeth."

Mae yna wahaniaeth o hyd at 12 mlynedd mewn disgwyliad oes rhwng rhai wardiau yng Nghaerdydd (tud. 199).

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Caerdydd

Nid yw CDLL Caerdydd yn eu galw'n benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn benodol, ond mae'n cyfeirio atynt ac yn eu cysylltu ag iechyd fel a ganlyn: *"Bydd Caerdydd yn cael ei gwneud yn lle mwy iach i fyw ynddo drwy geisio gostwng anghydraddoldeb iechyd drwy annog dulliau iach o fyw, ymdrin â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a darparu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gefnogi datblygiadau sy'n darparu ar gyfer teithio gweithredol, mannau gwyrdd hygyrch a defnyddiadwy, yn cynnwys lotments"* (tud. 112). *"Gall awyr o ansawdd gwael effeithio ar iechyd pobl, eu safon byw ac amwynder"* (tud. 119). *"Mae coed, coedwigoedd a gwrychoedd yn cynnig nifer o fanteision, yn cynnwys amwynder gweledol, yn diffinio naws o le, gan ddarparu lleoedd ar gyfer ymlacio a hamdden, cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, gwell iechyd a lles a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd"* (tud. 146).

"Rhoddir blaenoriaeth mewn datblygiadau newydd i ostwng anghydraddoldeb iechyd ac annog dulliau iach o fyw".

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i'w integreiddio i mewn i CDLL Caerdydd. Roedd hon yn ddogfen ar wahân. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd ac mae'n ddogfen ategol. Mae'r CDLL hefyd yn crybwyll Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Caerdydd yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae hyn yn debygol o fod yn ganlyniad i amseriad y ddogfen. (Cyhoeddwyd 2016. Lluniwyd y Nodau Llesiant yn 2015)

Cyfleoedd ar gyfer iechyd yn CDLL Caerdydd

Byddai rhoi diffiniad clir o'r hyn yw iechyd, a'r hyn nad ydyw, a nodi rhai metrigau neu ddangosyddion allweddol sy'n ymwneud ag iechyd yn cryfhau cysylltiadau presennol y ddogfen ag iechyd.

Mae'r CDLL yn darparu dealltwriaeth gadarn o degwch iechyd, ond mae'n ofynnol cael disgrifiad pellach o anghenion penodol y boblogaeth a'r modd y gellir defnyddio'r CDLL i leihau anghydraddoldebau a'r bwlch o ran disgwyliad oes.



Gwybodaeth gefndir

Bwriedir adnewyddu'r CDLL hwn yn 2033. Mae'r CDLL newydd wedi'i gadarnhau a chytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru, ond nid yw wedi'i gyhoeddi eto.



Mae gan Sir Gaerfyrddin boblogaeth o **187,900** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLL yn trafod poblogaeth sy'n heneiddio ac allfudiad y boblogaeth iau. Mae'n darparu ystadegau cyfyngedig megis: bod 60% o oedolion dros bwysau neu'n ordew; bod un ym mhob tair aelwyd yn byw mewn tldi.

Ni cheir unrhyw ddadansoddiad demograffig pellach, dim demograffeg o ran y rhywiau, ac ni chaiff poblogaethau a ymleiddiwyd na'u hanghenion penodol eu crybwyll ymhellach. Mae'r CDLL yn crybwyll y defnydd o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i bennu effeithiau cynigion ar iechyd poblogaethau agored i niwed (gweler y dyfyniad isod o dan iechyd strategol).

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin o iechyd a chysylltiadau ag iechyd

Nid yw'r CDLL yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd.

Un o nodau'r CDLL yw y bydd Sir Gaerfyrddin 2033 yn lle i ddechrau, i fyw, ac i heneiddio'n dda ynddo mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus (tud. 36).

"Er bod ystyriaethau amgylcheddol yn ganolog i'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy, mae hefyd yn ymwneud â sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn, a diwallu anghenion yr holl bobl, 'nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys hybu llesiant personol a chydlyniant cymdeithasol, a chreu cyfleoedd cyfartal" tud. 23

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd; fodd bynnag, mae yna adran *"cymunedau iach"* o dan SP8: Seilwaith

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Sir Gaerfyrddin

Nid yw'r CDLL yn darparu diffiniad o degwch neu gydraddoldeb iechyd. Ond mae'r dyfyniad canlynol yn dangos ei ddealltwriaeth: *"Mae yna amrywiadau sylweddol ledled y Sir o ran dangosyddion cymdeithasol amddifadedd, gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau iechyd, addysg a chymunedol, ac ansawdd tai. Mae yna brinder canolfan gymdeithasol a/neu gyfleusterau allweddol mewn rhai cymunedau i fod yn ffocws i'r gymuned. Mae gan eraill ystod o wasanaethau a chyfleusterau sy'n cyfrannu at fywyd cymunedol bywiog. Mae angen dosbarthiad mwy teg. Mae hyn, i ryw raddau, yn adlewyrchu cymeriad gwledig y Sir"* (tud. 27).

Ymdrin â phenderfyniadau cymdeithasol iechyd yn CDLL Sir Gaerfyrddin

Gweler y dyfyniad blaenorol mewn perthynas â thegwch iechyd, sy'n mynd i'r afael â'r penderfyniadau cymdeithasol. *"Mae bywyd cymunedol, addysg a gwasanaethau cyhoeddus yn amlygu llesiant mewn ardaloedd gwledig. Mae harddwch, heddwch a thawelwch, mannau gwyrdd agored, ac awyr iach hefyd yn cyfrannu at hapusrwydd mewn ardaloedd gwledig."* Rheoli Ansawdd Aer, tud. 34. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n darparu ar gyfer teithio llesol, mannau gwyrdd a seilwaith hygyrch, defnyddiadwy, ac sy'n ceisio lleihau anghydraddoldeb iechyd trwy annog ffyrdd iach o fyw, mynd i'r afael â phenderfyniadau cymdeithasol iechyd, a darparu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch, yn cael eu cefnogi (tud. 141).

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Cynhaliwyd Asesiad o'r effaith ar Iechyd i'w integreiddio i mewn i CDLL Sir Gaerfyrddin. Roedd hon yn ddogfen ar wahân.

Mae'r CDLL yn ymdrin â rôl Asesiadau o'r fath wrth fynd i'r afael â Thegwch Iechyd. *"Mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn asesu'r effaith y mae unrhyw newid neu ddiwygiad i bolisi, gwasanaeth, gweithdrefn neu raglen, yn ei chael ar iechyd y boblogaeth ac ar ddosbarthiad yr effeithiau hynny yn y boblogaeth, yn arbennig o fewn grwpiau agored i niwed. Mae cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cynhyrchu gwybodaeth am y modd y gall effeithiau negyddol ar iechyd gael eu lleihau ac y gall manteision cadarnhaol i iechyd gael eu hannog. Gall tystiolaeth o'r fath o'r effeithiau ar iechyd helpu'r system gynllunio i ddatblygu dulliau gweithredu cryfach a mwy cydlynol er mwyn sicrhau'r iechyd a'r llesiant gorau posibl."*

Mae'r CDLL hwn yn cynnwys cyfeiriadau cryf at y broses o Asesu'r Effaith ar Iechyd: *"Gall Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wneud cyfraniad gwerthfawr wrth gynnig datblygiad newydd neu wneud penderfyniad ynghylch datblygiad o'r fath. Gall tystiolaeth o'r effaith ar iechyd helpu'r system gynllunio i ddatblygu dulliau gweithredu cryfach a mwy cydlynol er mwyn sicrhau'r iechyd a'r llesiant gorau posibl."* (tud. 141). Yna, mae'n mynd ymlaen i amlinellu camau allweddol Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Roedd CDLL Sir Gaerfyrddin yn cynnwys sawl cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Sir Gaerfyrddin

Diffiniad penodol o degwch iechyd a'r hyn yw/nad yw iechyd. Mae'r CDLL yn cyfeirio at iechyd ar draws pob un o gamau bywyd (lle i ddechrau, byw a heneiddio'n dda), a byddai'n elwa o ymchwilio ymhellach i'r modd y gellir cyflawni iechyd da ar amrywiol gamau bywyd. Byddai dangosyddion neu fesurau iechyd-benodol hefyd yn fuddiol.

Ceredigion

Dolen i'r CDLL >>>



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL hwn yn 2011 a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2022. Mae'r CDLL newydd ar y gweill a bydd yn cwmpasu'r cyfnod 2018-2033.



Mae gan Geredigion boblogaeth o **71,500** (Cyfrifiad 2021.).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLL yn trafod poblogaeth sy'n heneiddio a rhai o'i hanghenion penodol. *"Gallai unedau llawr daear, er enghraifft, fod yn addas/ddeniadol i bobl ag anableddau neu i'r henoed."* Mae hefyd yn ymdrin ag anghenion y Boblogaeth Sipsiwn. Heblaw am hyn, ni ddarperir unrhyw ddadansoddiad sylweddol o'r grwpiau demograffig, ni chrybwyllir demograffeg o ran y rhywiau, ac ni chyfeirir ymhellach at boblogaethau a ymleiddiwyd a'u hanghenion penodol.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion o iechyd a chysylltiadau ag iechyd

Nid yw'r CDLL yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd. Mae'n amlinellu strategaeth iechyd Ceredigion – Bywyd Da – ac yn llunio cysylltiadau penodol rhwng y strategaeth hon a'r CDLL. Mae'n nodi mai amcan datblygu cynaliadwy yw *"gwella iechyd a llesiant ei gymunedau"* (tud. 37).

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Ceredigion

Nid yw'r CDLL yn darparu diffiniad o degwch neu anghydraddoldebau iechyd. Yr unig adeg y caiff cydraddoldeb ei grybwyll yw mewn perthynas â mynediad a chysylltedd y sir.

Ymdriniaeth o benderfyniadau cymdeithasol iechyd yn CDLL Ceredigion

Nid yw'r CDLL hwn yn cyfeirio'n benodol at benderfyniadau cymdeithasol iechyd. Fodd bynnag, mae'n nodi: *"Caiff natur wledig y Sir effaith sylweddol ar ddarparu a chyflwyno gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles, oherwydd bod cost darparu cymorth/gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn uwch o lawer o ran amser ac o ran arian ac mae'n aml yn dibynnu ar drafnidiaeth breifat. Mae lleoedd gweigion mewn llawer o ysgolion Ceredigion (ysgolion Cynradd a rhai ysgolion Uwchradd) hefyd, ac mae rhai ysgolion gwledig wedi'u cau eisoes. Pan adolygir system addysg bresennol Ceredigion (2008-09) bydd goblygiadau o ran defnydd tir, megis safleoedd ysgolion newydd, estyniadau neu gau ysgolion."* Mae'r cynllun hefyd yn trafod seilwaith a chydraddoldeb mynediad, cymuned a chysylltedd yn arwain at well iechyd a llesiant.

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd at ddibenion y cynllun hwn. Fodd bynnag, mae'n cyfeirio at fathau eraill o asesiadau effaith: Asesiadau o'r Effaith ar Gymunedau, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, Asesiad o'r Effaith ar Anghenion Twristiaeth a Datblygid, Asesiad o'r Effaith ar Fanwerthu, Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol, Asesiad o'r Effaith Weledol ar y Dirwedd. Mae hyn yn dangos bod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dod i gysylltiad â'r broses Asesu Effaith yn flaenorol.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Ceredigion yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae hyn yn debygol o fod yn ganlyniad i amseriad y ddogfen. (Cyhoeddwyd 2011. Lluniwyd y Nodau Llesiant yn 2015)

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Ceredigion

Mae yna gyfle i gynnwys diffiniadau penodol o iechyd a thegwch/chydraddoldeb iechyd. Diffiniad penodol o benderfynyddion cymdeithasol iechyd, a nodi anghenion penodol y boblogaeth ochr yn ochr â metrigau cysylltiedig ag iechyd. Mae'r CDLL yn ymdrin â darparu gwasanaethau gofal iechyd yn yr ardal, ac mae yna gyfle i archwilio ymhellach y ffordd y gall y CDLL gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y gwasanaeth a ddarperir, ac ar ganlyniadau iechyd hynny.

Un o gryfderau'r CDLL hwn yw'r ffordd y mae'n cysylltu'r CDLL â Strategaeth Iechyd Ceredigion.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL hwn yn 2013. Roedd i fod i gael ei adnewyddu yn 2022, ac mae'r CDLL newydd ar y gweill ar hyn o bryd.



Mae gan Conwy boblogaeth o **114,800** (Cyfrifiad 2021)

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r crynodeb o'r CDLL yn ymdrin â rhai meysydd ffocws ac amcanestyniadau o ran y boblogaeth, ynghyd â rhai o'r effeithiau y gallai hyn eu cael er y gymuned leol. Mae'r rhain fel a ganlyn –

- Mae nifer y bobl sy'n 65+ oed yn cynyddu'n sylweddol gan arwain at bwysau cynyddol ar ofal cymdeithasol a chyfleusterau a gwasanaethau iechyd ar draul perfformiad economaidd;
- Disgwylir i nifer y plant ostwng yn sylweddol ar draul perfformiad economaidd, lefelau disgyblion ysgol, a hunaniaeth gymunedol yn y dyfodol;
- Disgwylir i nifer y bobl sy'n cyd-fyw mewn aelwydydd ostwng, gan arwain at ofyniad am dai newydd i gynnal y boblogaeth bresennol a gostyngiad yn nifer y tai o faint ar gyfer teuluoedd;
- Mae nifer y bobl sy'n mewnffudo i Ardal y Cynllun yn llawer uwch na'r nifer sy'n allfudo, gan arwain at angen cynyddol am ragor o dai a chyfleoedd gwaith; ac
- Mae nifer y bobl sy'n preswyllo yn Ardal y Cynllun ac sy'n allgymudo i'r gwaith mewn lleoliadau y tu allan i Ardal y Cynllun yn anghynaliadwy, gan arwain at angen i gynyddu cyfleoedd gwaith lleol.

Er ei fod yn amlinellu'r effaith y gallai newid o ran y ddemograffeg ei chael ar y gymuned, nid yw'n amlinellu anghenion penodol y grwpiau hyn, na'r ffyrdd y gallai'r CDLL liniaru effeithiau newidiadau i'r ddemograffeg. Heblaw am hyn, ni ddarperir unrhyw ddadansoddiad demograffig neu ystadegol sylweddol, ac nid oes yna unrhyw sôn am ddemograffeg o ran y rhywiau.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Conwy o iechyd a chysylltiadau ag iechyd

Nid oes yna ddiffiniad penodol o iechyd. Caiff iechyd ei grybwyll mewn perthynas â seilwaith, e.e. cyfleusterau, a gweithwyr. Caiff gwelliant i statws iechyd ei grybwyll fel sgil-gynnyrch gwell cynaliadwyedd, gan gyfeirio ato mewn perthynas â ffordd iach, fwy egniol o fyw, ond ni cheir unrhyw ddisgrifiad o beth y mae hyn yn ei olygu.

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDL Conwy

Nid oes yna ddiffiniad penodol o degwch neu gydraddoldeb iechyd. Yr unig dro y caiff cydraddoldeb ei grybwyll yma yw ar dudalen 231: *“Mae gwella hygyrchedd a lleihau’r ddibyniaeth ar geir yn helpu i wella cydraddoldeb, yn lleihau tagfeydd ac yn ymateb i heriau’r newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd amgylcheddol.”*

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDL Conwy

Nid yw CDL Conwy yn cyfeirio’n benodol at benderfynyddion cymdeithasol iechyd. Fodd bynnag, mae’n dweud, *“Bydd pobl Conwy yn teimlo’n ddiogelach ac yn iachach, o ganlyniad i ddatblygiadau ansawdd uwch, sydd wedi’u dylunio’n dda, sy’n defnyddio ynni’n effeithiol ac sy’n diogelu ac yn gwella’r amgylchedd naturiol ac adeiledig.”* (tud 31) *“Mae’r llwybrau hamdden hefyd yn adnodd pwysig, yn enwedig i wella mynediad i’r ardal o gefn gwlad gyfagos yn rhan o arfer byw iachus.”* (tud. 235)

Iechyd Strategol – Asesiad o’r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar Iechyd at ddibenion llunio’r ddogfen hon. Mae’r CDL yn crybwyll Asesiad o’r Effaith Weledol ar y Dirwedd, Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol, Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg, ac Asesiad o’r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol. Mae hyn yn dangos bod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dod i gysylltiad â’r broses Asesu Effaith yn flaenorol.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDL Ceredigion yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae hyn yn debygol o fod yn ganlyniad i amseriad y ddogfen. (Cyhoeddwyd 2012. Lluniwyd y Nodau Llesiant yn 2015)

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDL Ceredigion

Byddai’r CDL hwn yn elwa o ddiffiniadau penodol o iechyd, tegwch/cydraddoldeb iechyd, a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd. Gwnaed ymdrech i ddeall demograffeg newidiol yr ardal, ond gellid atgyfnerthu hyn trwy ddeall natur ddwyochrog y newid hwn – y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y gymuned, ond y gall y gymuned a’r CDL hefyd gael effaith ar natur y newidiadau hyn. Gallai dealltwriaeth bellach o ddemograffeg ddisgwyliedig yr ardal wella effeithiolrwydd y CDL hwn.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL yn 2013 a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2021. Mae'r CDLL newydd ar y gweill a bydd yn cwmpasu'r cyfnod 2018-2033.



Mae gan Sir Ddinbych boblogaeth o **95,800** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Pan fo'r CDLL yn disgrifio'r "Cynllun Mawr" ar gyfer strategaeth gymunedol, a strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, mae'n rhestru'r poblogaethau hyn fel grwpiau ffocws – sgiliau pobl hŷn, plant a phobl ifanc, teuluoedd agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymwneud yn benodol â'r CDLL hwn; yn hytrach cyfeirir ato mewn perthynas â strategaeth arall.

Ni cheir unrhyw gyfeiriad at y ffordd y mae gwahanol is-setiau o'r boblogaeth yn dylanwadu ar y CDLL hwn, nac at y ffordd y gall y CDLL ddylanwadu ar is-setiau o'r fath. Ni cheir unrhyw ddadansoddiad demograffig neu ystadegol pellach, ac nid oes yna unrhyw sôn am ddemograffeg o ran y rhywiau.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLL yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd.

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Sir Ddinbych

Dim diffiniad o degwch neu angydraddoldeb iechyd. Dim sôn o gwbl am degwch neu gydraddoldeb.

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Sir Ddinbych

Heb ddefnyddio'r ymadrodd penderfynyddion cymdeithasol iechyd, rhoddir ystyriaeth i lechyd o dan y lens hon, ac ymdrinnir â'r gwahanol ffyrdd y gallai prosiectau'r CDLL wella neu effeithio ar iechyd.

"Mae adeiladu cymunedau cynaliadwy yn ymwneud â darparu tai a chyfleoedd gwaith ynghyd ag adfywio, a delio ag amddifadiad ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Mae tai yn un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles pobl. Mae darparu cyfleoedd ar gyfer y raddfa a'r gymysgedd briodol o dai i ddiwallu anghenion poblogaeth gynyddol, gan gynnwys tai diogel a fforddiadwy, yn ystyriaethau allweddol i'r Cynllun Datblygu Lleol" (tud. 21). "Mae canllawiau cenedlaethol yn cydnabod y cysylltiad rhwng y cyfle i ymarfer ac iechyd a lles pobl yn gyffredinol" (tud.39). "Mae traffig ffordd yn cyfrannu'n arwyddocaol i allyriant carbon deuocsid (CO2) a llygredd aer arall sy'n cael effaith negyddol ar iechyd a lles cymunedau lleol" (tud. 80).

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd at ddibenion y CDLL hwn. Fodd bynnag, mae'n crybwyll Asesiad o'r Effaith Cymunedol ac Ieithyddol. Mae hyn yn dangos bod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dod i gysylltiad â'r broses Asesu Effaith yn flaenorol.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Sir Ddinbych yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae hyn yn debygol o fod yn ganlyniad i amseriad y ddogfen. (Cyhoeddwyd 2013. Lluniwyd y Nodau Llesiant yn 2015)

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Sir Ddinbych

Mae CDLL Sir Ddinbych yn crybwyll rhanddeiliaid wrth gyfeirio at symud ymlaen â chynigion datblygu, ond nid o ran paratoi'r CDLL. Mae'n rhestru'r materion allweddol sy'n wynebu'r sir, felly gellir tybio bod rhyw fath o ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei gynnal; fodd bynnag, ni chaiff hyn ei amlinellu'n benodol – felly mae yna gyfle i grybwyll hyn.

Cyfle i gynnwys diffiniadau o iechyd a thegwch iechyd. Ymdrin â'r modd y gall y CDLL ddylanwadu ar ganlyniadau iechyd.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL yn 2023 a bwriedir ei adnewyddu yn 2030.



Mae gan Sir y Fflint boblogaeth o **155,500** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLL yn gwneud ymdrech bwrpasol i edrych yn ddyfnach ar ofynion grwpiau bregus penodol.

"Gwella'r gwasanaethau a'r cymorth sy'n gysylltiedig â thai, yn arbennig i bobl sy'n agored i niwed a phobl o grwpiau lleiafrifol" (tud. 77). *"Sicrhau bod gan gymunedau fynediad at gymysgedd o wasanaethau a chyfleusterau, megis addysg ac iechyd, er mwyn galluogi i fywyd cymunedol flodeuo, a bodloni anghenion grwpiau penodol megis yr henoed"* (Amcan 1 y CDLL). *"Creu lleoedd sy'n ddiogel a hygyrch ac annog a chefnogi iechyd da, lles a chydaddoldeb"* (Amcan 7 y CDLL). *"Gall llety anecs chwarae rhan bwysig fel rhan o stoc tai hyblyg, drwy alluogi perthnasau hŷn neu blant hŷn i ddal i fyw yng nghartref y teulu, wrth fwynhau rhywfaint o annibyniaeth"* (tud. 143).

Fodd bynnag, nid yw'n rhoi dadansoddiad o ddemograffeg yr ardal nac amcanion penodol a mesuradwy i'r CDLL wella canlyniadau iechyd.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid oes yna ddiffiniad o iechyd ac nid oes yna adran benodol ar iechyd; fodd bynnag, mae iechyd wedi'i integreiddio'n llwyddiannus i'r rhan fwyaf o adrannau'r papur.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Sir y Fflint

Nid oes yna ddiffiniad o degwch neu gydraddoldeb iechyd; fodd bynnag, caiff cydraddoldeb ei drafod lond llaw o weithiau mewn perthynas â dosbarthiad penderfynyddion cymdeithasol iechyd. Mae'n crybwyll asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (tud. 252).

Mae Amcanion y CDLL yn ymdrin â chydaddoldeb – *"Creu lleoedd sy'n ddiogel a hygyrch ac annog a chefnogi iechyd da, lles a chydaddoldeb"* (Amcan 7 y CDLL). *"Sicrhau bod gan gymunedau fynediad at gymysgedd o wasanaethau a chyfleusterau, megis addysg ac iechyd, er mwyn galluogi i fywyd cymunedol flodeuo, a bodloni anghenion grwpiau penodol megis yr henoed."* (tud. 60) *"Creu a gwarchod mannau gwyrdd a mannau agored/amgylcheddau chwarae sydd yn annog a chefnogi iechyd da a llesiant a chydaddoldeb"* (tud. 87).

Ymdriniaeth o benderfynnyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Sir y Fflint

Mae PCC11 yn amlygu bod “yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn benderfynydd allweddol o iechyd a lles” (paragraff 3.19). Yna mae’n mynd ymhellach trwy gyfeirio’n benodol at y ffyrdd y mae penderfynnyddion cymdeithasol yn dylanwadu ar iechyd – “Mae’r CDLL yn bwysig ar gyfer iechyd a lles preswylwyr Sir y Fflint gan ei fod yn datblygu’r amgylchedd adeiledig a naturiol yn uniongyrchol sydd yna’n dylanwadu ar ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy’n effeithio ar iechyd a lles. Mae’r CDLL yn ceisio hybu datblygiad cynaliadwy sy’n gwella iechyd a lles preswylwyr Sir y Fflint drwy greu cyfleoedd gwaith newydd, dewisiadau tai fforddiadwy a darparu mannau agored ac isadeiledd gwyrdd o ansawdd uchel. Mae’r holl elfennau hyn wedi eu cyfuno yn gallu dylanwadu’n gadarnhaol ar iechyd a lles cymunedau. Bydd y CDLL yn cyflawni hyn drwy sicrhau bod y mathau cywir o ddatblygiadau yn cael eu cynnal yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy gyda’r seilwaith angenrheidiol yn ei le i gefnogi’r gymuned newydd a phresennol. Yn ychwanegol at hyn, mae’r CDLL yn gallu diogelu cymunedau rhag datblygiadau amhriodol fyddai’n cael effaith niweidiol ar iechyd a lles preswylwyr” (tud. 31). “Bydd llwybrau cerdded a beicio hefyd yn cynorthwyo i greu ffyrdd iach o fyw a byddant yn dod â manteision iechyd” (tud. 57). “Mae tai yn ganolog i fywydau pobl. Mae tai fforddiadwy o ansawdd yn cyfrannu’n uniongyrchol at gydlyniant a chynaliadwyedd cymunedol, ac at iechyd a lles pobl. Mae cartref yn rhan hanfodol o fywydau pobl gan ei fod yn effeithio ar eu hiechyd a’u lles, ansawdd eu bywyd, a’r cyfleoedd sydd ar gael iddynt” (tud. 75).

Iechyd Strategol – Asesiad o’r effaith ar iechyd

Cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar Iechyd i’w integreiddio i CDLL Wrecsam. Roedd hon yn ddogfen ar wahân. Mae’r CDLL hefyd yn sôn am Asesiad Strategol o’r Effaith ar yr Amgylchedd, Asesiad o’r Effaith ar Iechyd, Asesiad o’r Effaith ar Fanwerthu, Asesiad o’r Effaith ar y Dirwedd, Asesiad o’r Effaith ar Dreftadaeth, Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Mae yna sawl cyfeiriad yn CDLL Sir y Fflint at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer iechyd yn CDLL Wrecsam

Mae penderfynnyddion cymdeithasol iechyd yn cael eu cydnabod yn eang – byddai’n ddefnyddiol darparu diffiniad o beth ydynt, diffiniad o iechyd a thegwch iechyd, a chryfhau’r cysylltiadau rhwng penderfynnyddion cymdeithasol iechyd a chanlyniadau iechyd, a sut y gellir defnyddio’r CDLL i wella iechyd poblogaeth Sir y Fflint.



Gwybodaeth gefndir

Y CDLL hwn yw'r "CDLL newydd". Fe'i cyhoeddwyd yn 2020 a bwriedir ei adnewyddu yn 2031.



Mae gan Ferthyr Tudful boblogaeth o **58,839** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLL hwn yn nodi'r canlynol yn 4.7 ynghylch lefelau twf a nodwyd – *"Cynnydd yn nifer y plant oedran ysgol ar lefel y gellid darparu ar eu cyfer yn haws, heb fod angen ysgolion newydd. Cynnydd sylweddol yng nghyfran yr henoed sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd darparu ar gyfer y ddemograffeg hon yn fater allweddol i ddarparwyr gwasanaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat."*

Nid oes unrhyw sôn pellach am boblogaethau agored i niwed. Mae'n crybwyll yr henoed a phlant o ran twf yn y boblogaeth a'r atebion y mae eu hangen ond nid yw'n nodi anghenion penodol y carfannau hyn.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLL yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd. Mae iechyd yn cael ei drafod fel rhywbeth i'w gyflawni ac ymdrechu i'w gael, ond heb unrhyw amlinellid o beth yn union y mae hyn yn ei olygu na sut i gyflawni iechyd da.

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Merthyr Tudful

Nid yw'r CDLL yn darparu diffiniad o degwch neu gydraddoldeb iechyd. Dim sôn o gwbl am degwch neu gydraddoldeb. Prin yw'r drafodaeth am wella iechyd neu gydraddoldeb y boblogaeth.

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Merthyr Tudful

Nid yw CDLL Merthyr Tudful yn enwi penderfynyddion cymdeithasol iechyd yn benodol, ond mae'n trafod bod cynllunio, dylunio, rheoli, a chynnal a chadw'r amgylchedd adeiledig, a'r rhyngweithio rhyngddo â'r amgylchedd naturiol, yn cael effaith hirdymor ar bobl a chymunedau. Cydnabyddir yn eang bod y 'lle' yr ydym yn byw neu'n gweithio ynddo yn dylanwadu'n drwm ar ansawdd ein bywyd, ein ffyniant, ein hiechyd a'n llesiant. Mae manau agored sy'n hygyrch, wedi'u cynllunio'n dda, ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein hamcan llesiant lleol i sicrhau bod gan blant ac oedolion lesiant corfforol a meddyliol da (tud. 50).

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wrth baratoi'r CDLL hwn. Fodd bynnag, mae'r CDLL yn sôn am Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth, Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd, Asesiadau o'r Effaith Ecolegol, Asesiad o'r Effaith Weledol ac ar y Dirwedd, Asesiad o'r Effaith ar Fanwerthu, Asesiad o'r Effaith Gymdeithasol, ac Asesiad o'r Effaith Ecolegol – mae hyn yn dynodi cysylltiad blaenorol yr ACLL â'r broses asesu effaith.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Merthyr Tudful yn crybwyll y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Merthyr Tudful

Mae yna sawl cyfle i iechyd gael ei integreiddio a'i ystyried ymhellach yn y ddogfen hon drwyddi draw, yn enwedig mewn perthynas â diffiniadau penodol o iechyd, ystyriaethau o ran tegwch, ystyriaethau ac anghenion poblogaethau, a chanlyniadau mesuradwy.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLl yn 2014, a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2021. Mae'r CDLl newydd ar y gweill ac yn cwmpasu'r cyfnod 2018-2033.



Mae gan Sir Fynwy boblogaeth o **93,000** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae unrhyw sôn am boblogaethau yn ddisgrifiadol yn unig. Er enghraifft – poblogaeth isel o Sipsiwn a Theithwyr (adran 6.1.27 tud. 99), poblogaeth isel sy'n darllen, ysgrifennu neu'n siarad Cymraeg (Adran 1.25 tud. 6), grwpiau oedran hŷn/iau (adran 3.3), 74% o aelwydydd yn eiddo i berchen-feddiannydd (3.36), neu 62.8% yn gyflogedig. Mae'r CDLl yn cyfeirio at "fudo" mewn perthynas ag adar. Mae'r unig sôn am anabledd yn ymwneud â pharcio. Nid yw'r CDLl yn crybwyll unrhyw grwpiau poblogaeth y mae angen i bolisiau ganolbwyntio ymhellach arnynt.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLl hwn yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd, ond mae iechyd yn cael ei grybwyll 60 o weithiau yn y strategaeth. Mae Adran 3.46 yn sôn bod *"iechyd poblogaeth Sir Fynwy yn gyffredinol well na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru, bod y disgwyliad oes yn fwy, a bod cyfran uwch o drigolion yn eu hystyried eu hunain yn iach."* *"Er bod Sir Fynwy yn perfformio'n gymharol dda o ran dangosyddion sy'n ymwneud ag iechyd, mae angen hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer byw'n iach a mynediad at ofal iechyd, yn enwedig yng nghyd-destun poblogaeth sy'n heneiddio."*

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd ond mae yna adran gysylltiedig ond ar wahân ar y *"strategaeth iechyd, cymdeithasol a llesiant"* sy'n nodi ymrwymiad parhaus i wella iechyd a llesiant ledled y sir.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLl.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLl Sir Fynwy

Nid oes yna ddiffiniad penodol o degwch iechyd. Yr unig sôn am gydraddoldeb yw *"cymdeithas deg a chydadd"* a grybwyllir yn yr adran am gyfiawnder cymdeithasol ar dudalen 14. Mae hefyd yn ymdrin â fforddiadwyedd tai.

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLl Sir Fynwy

Crybwyllir y penderfynyddion yn y ddogfen; fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu diffinio fel penderfynyddion cymdeithasol iechyd. Cyfeirir atynt yn bennaf trwy ddeddfau neu bolisiau eraill (h.y. y strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant (tud. 16) a'r cynllun cludiant rhanbarthol (tud. 11-12). Mae newid yn yr hinsawdd a llifogydd yn cael eu hystyried yn risg i iechyd pobl ac eiddo (tud. 42). Gwellu mynediad at weithgareddau hamdden, chwaraeon, adloniant, manau agored a chefn gwlad, a galluogi ffyrdd iachach o fyw. Sicrhau bod seilwaith priodol (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol a hamdden, carthffosiaeth, dŵr,

cludiant, ysgolion a gofal iechyd, ac ati) eisoes ar waith neu y gellir ei ddarparu ar gyfer datblygiad newydd (y ddau ar dud. 45).

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad o'r effaith ar iechyd wrth lunio'r CDLL. Crybwyllir Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd ac Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd, sy'n dynodi cysylltiad blaenorol yr ACLL â'r broses asesu effaith.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Sir Fynwy yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Sir Fynwy

Mae yna gyfle i grybwyll iechyd, ei ddiffinio a'i gysylltu'n benodol â'r ddogfen trwy benderfynyddion cymdeithasol iechyd. Mae yna gamau gweithredu mewn cynlluniau a deddfau eraill a grybwyllir yn y ddogfen, ond nid ydynt yn benodol i'r ddogfen hon – felly gallai amlinellu mesuriadau iechyd penodol y CDLL fod yn fuddiol.

Castell-nedd Port Talbot

Dolen i'r CDLL >>>

Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn 2016 a bwriedir ei adnewyddu yn 2026.



Mae gan Gastell-nedd Port Talbot boblogaeth o **142,300** (Cyfrifiad 2021).



Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLL yn ymdrin â'r canlynol: *"Yn sgîl eu topograffi a'u pellter o'r prif ganolfannau poblogaeth, mae cymunedau'r cymoedd wedi dioddef dirywiad a diffyg buddsoddi. Maent yn cynnwys cymunedau sy'n agored i ddioddef dirywiad economaidd pellach, amddifadedd ac allfudo. Nod y CDLL felly yw annog agwedd fwy hyblyg at ddatblygu yn y Cymoedd, er mwyn creu cymunedau cynaliadwy, gwydn, gyda'r bwriad o atal y broses o ddiboblogi a dirywio."*

Er nad yw'n disgrifio demograffeg y boblogaeth, rhoddir ystyriaeth i gymunedau bregus yn ddaearyddol, a dyma yw un o'r disgrifiadau gorau o rôl y CDLL o ran cefnogi cymunedau bregus.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLL yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd. Fodd bynnag, mae CDLL Castell-nedd Port Talbot yn ystyried iechyd yn *"fater o bwysigrwydd sylfaenol i'r fwrdeistref sirol gyfan"* tud. 35 *"ystyriar bod iechyd yn faes pwnc trosfwaol, gan y bydd yn cael sylw trwy ystod o bolisiau ac ymyriadau y gall fod iddynt fanteision iechyd cadarnhaol"* tud. 36. *"Mae trigolion Castell-nedd Port Talbot yn profi peth o'r iechyd gwaethaf yng Nghymru"* tud. 18. *"Nodir bod iechyd gwael yn fater allweddol i Gastell-nedd Port Talbot. Mae'r strategaeth yn cefnogi nifer o egwyddorion a fydd yn helpu i feithrin dulliau iachach, mwy egniol o fyw, ac mae'n edrych ar fesurau i helpu i wella mynediad at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, ochr yn ochr ag annog teithio mwy llesol."*

Mae'r CDLL yn ymdrin â chanlyniadau'r *"Cynllun Integredig Sengl"* – sef bod yn iachach: Bod plant a phobl ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot yn iach yn gorfforol ac yn emosiynol; bod oedolion oedran gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot yn iach yn gorfforol ac yn emosiynol; a bod pobl hŷn yn annibynnol ac yn meddu ar ansawdd bywyd da. Nod y canlyniad hwn yw gwella iechyd a lles trigolion Castell-nedd Port Talbot trwy:

- Hybu ffyrdd iachach o fyw;
- Ymgorffori gwella iechyd mewn trefniadau llunio polisiau a darparu gwasanaethau;
- Ailfodelu ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae yna adran ar wahân ar iechyd – Polisi Strategol 2 o dan bolisiau trosfwaol.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Castell-nedd Port Talbot

Nid yw'r CDLL yn darparu diffiniad o degwch neu gydraddoldeb iechyd. Mae'n crybwyll cynlluniau rhannu ecwiti mewn perthynas â thai. Mae'n crybwyll anghydraddoldeb y rhanbarth fel a ganlyn (nid yn benodol i iechyd) – *“Mae'r CDLL yn darparu gweledigaeth fodern, glir ac uchelgeisiol o'r hyn rydym ni eisiau ei weld yn digwydd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y degawd nesaf – Bwrdeistref Sirol lle gallwn ni ddarparu dyfodol gwell a thecach i bawb sy'n byw, yn gweithio, yn ymweld â'r sir neu'n buddsoddi yma – gan danlinellu ar yr un pryd y rôl ehangach y gallwn ni ei chwarae o ran cynyddu ffyniant a lleihau tlodi ac anghydraddoldeb ar draws y rhanbarth”* (tud. 1).

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Castell-nedd Port Talbot

Mae'n sôn yn benodol am *“benderfynyddion iechyd gwael”*; fodd bynnag nid yw'n diffinio hyn nac yn amlinellu beth yw'r penderfynyddion hyn.

Amcan 2 – OB 2: Lleihau'r graddau y mae pobl yn dod i gysylltiad â phenderfynyddion iechyd gwael a darparu amgylchedd sy'n annog ffyrdd iach, gweithgar a mwy diogel o fyw. tud. 19

Yn yr adran Iechyd, er nad yw'n eu galw'n benderfynyddion iechyd cymdeithasol yn benodol, mae'n ymdrin â'r ffaith y *“rhoddir y mesurau a amlinellir i ymdrin â materion iechyd ar waith trwy nifer o bolisiâu a chynigion y cynllun: aneddiadau cynaliadwy, dyraniadau tai, amddiffyn cyfleusterau cymunedol, darparu a diogelu mannau agored, hygyrchedd, cyflogaeth, amgylchedd”* (tud. 36).

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad o'r effaith ar iechyd wrth lunio'r ddogfen hon. Fodd bynnag, sonnir am asesiad o'r effaith ar iechyd – *“Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol bydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) yn ofynnol, lle bo hynny'n briodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn ffurfio rhan o unrhyw Ddatganiad Amgylcheddol a gyflwynir gyda'r cynnig”* (tud. 76). Mae'r CDLL hefyd yn sôn am Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (tud. 88), Asesiad o'r Effaith ar Drafftig (tud. 137), sy'n dynodi cysylltiad yr ACLL â'r broses asesu effaith.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Castell-nedd Port Talbot yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae hyn yn debygol o fod yn ganlyniad i amseriad y ddogfen. (Cyhoeddwyd 2016. Lluniwyd y Nodau Llesiant yn 2015)

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Castell-nedd Port Talbot

Hwn oedd y CDLL cyntaf a oedd ymddangos fel petai'n deall ac yn amlygu'r ffyrdd y gallai'r CDLL gynorthwyo i gefnogi cymunedau agored i niwed. Fodd bynnag, roedd y poblogaethau hyn yn cael eu disgrifio'n ddaearyddol yn unig. Byddai darparu rhagor o wybodaeth am ddemograffeg y boblogaeth ac anghenion penodol grwpiau agored i niwed, neu gydol oes, yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng anghenion y gymuned a'r CDLL.

Defnyddir llawer o rethreg ynghylch amcanion, nodau, a strategaethau, ond mae yna ddiffyg camau gweithredu penodol a mesuradwy yn y CDLL. Mae'r CDLL yn cydnabod bod gan Gastell-nedd Port Talbot rai o'r ffigurau iechyd gwaethaf yng Nghymru ond nid oes unrhyw wybodaeth bellach ynghylch pam y gallai hynny fod – byddai cynnwys disgrifiadau pellach yn y fan hon yn dda, ochr yn ochr â chysylltiadau â'r modd y gellir defnyddio'r CDLL i wella iechyd a llesiant yn yr ardal.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL yn 2015, a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2026.



Mae gan
Gasnewydd
boblogaeth o
159,600
(Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLL yn sôn am boblogaeth sy'n heneiddio a'r ffaith y bydd angen ystyried anghenion yr henoed mewn datblygiadau yn y dyfodol, ond nid yw'n crybwyll nodweddion unrhyw boblogaethau eraill. Mae'n sôn am deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr – mae yna ddangosyddion yn ymwneud â nifer y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a'r angen amdanynt.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Casnewydd o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Mae'r CDLL hwn yn sôn am iechyd 56 o weithiau trwy'r ddogfen gyfan, a sawl gwaith mewn ffyrdd priodol – h.y. sut y gallai'r CDLL a'i gamau gweithredu effeithio ar iechyd neu ei wella. Thema sylfaenol o ymboeni am iechyd a llesiant y boblogaeth. Fodd bynnag, nid oes yna ddiffiniad o iechyd na dangosyddion mesuradwy penodol o ran yr hyn y mae iechyd yn ei olygu yn union.

Mae yna adran ar wahân ar iechyd.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Casnewydd

Nid oes yna ddiffiniad penodol o degwch neu gydraddoldeb iechyd. Cydraddoldeb amgylcheddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yw'r unig gyfeiriad a geir at gydraddoldeb.

Yn yr adran am egwyddorion datblygu cyffredinol, nodir y canlynol: "Dylid ystyried trefniadau mynediad yn gynnar yn y broses ddylunio i sicrhau bod datblygiadau a'r ardal gyfagos yn rhoi mynediad cydradd a chyfleus i ddefnyddwyr."

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Casnewydd

Mae yna nifer o ddyfyniadau ynghylch penderfynyddion cymdeithasol iechyd, ac mae'r rhain wedi'u henwi'n benodol felly.

O dan y polisi iechyd strategol, amlinellir y canlynol: "Mae nifer o ffactorau sy'n penderfynu ar iechyd y gall y polisi yn y Cynllun hwn ddylanwadu arnynt. Bydd mesurau addasu o ran newid yn yr hinsawdd yn amlwg yn yr ystyr hwn, gan fod nifer o fanteision o ran iechyd y cyhoedd ynghlwm wrthynt" tud. 19. "Mae'n rhesymol rhagdybio, pan fydd datblygiadau mewn llefydd na ellir ond eu cyrraedd â char, bod pobl yn llai tebygol o gerdded iddynt. Mae felly'n debygol o arwain at fwy o anweithgarwch ymysg y boblogaeth leol" (tud. 18).

“Yn ogystal, bydd yn cynorthwyo ffyrdd iachach o fyw a lles, er enghraifft, trwy ddiogelu a gwella cyfleusterau chwaraeon a hamdden llwyddiannus” tud. 4.

Iechyd Strategol – Asesiad o’r effaith ar iechyd

Cynhaliwyd asesiad o’r effaith ar iechyd i gwblhau’r CDLL hwn.


Mae’r CDLL hefyd yn crybwyll y canlynol: *“Yn amodol ar y darpariaethau statudol perthnasol, efallai y bydd angen Asesiad o’r Effaith ar yr Amgylchedd, Asesiad o’r Effaith ar Iechyd, a/ neu Asesiad Risg Rhagarweiniol fel y gellir ystyried goblygiadau amgylcheddol ac iechyd datblygiadau a gynigir cyn penderfynu ar unrhyw gaïs cynllunio”* (tud. 50).

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Casnewydd yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Casnewydd

Mae yna gyfle i ddiffinio iechyd yn benodol. Caiff penderfynyddion cymdeithasol iechyd eu crybwyll ond nid ydynt wedi’u diffinio’n glir. Er bod y CDLL hwn yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o iechyd ac yn ei drafod mewn ffyrdd sy’n ymddangos yn briodol ar gyfer CDLL, gellid cryfhau’r cysylltiadau hyn rhwng cynllunio ac iechyd.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL yn 2013, a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2021. Mae'r CDLL newydd ar y gweill ar hyn o bryd.



Mae gan Sir Benfro boblogaeth o **123,400** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Y CDLL hwn yw'r unig un lle trafodir anghenion llety yr henoed *"ar sail iechyd"*. *"Sir Benfro sydd â'r gyfran uchaf ond un o bobl hŷn yn ei phoblogaeth yng Nghymru, gydag amcangyfrif o ragor na 26% o'r boblogaeth dros 65 oed erbyn 2021. Felly mae'r polisi hwn yn ceisio darparu llety ar gyfer anghenion arbennig amryw grwpiau, yn arbennig pobl hŷn (ond grwpiau eraill hefyd) o ran llety gwarchod, gofal preswyl, gofal ychwanegol a gofal cartref, neu ofal seibiant, lliniarol neu hosbis (Dosbarth C2 o Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd 1987 fel y'i diwygiwyd)."*

Mae'r cynllun yn nodi anghenion penodol *"pobl agored i niwed"* o ran tai, ond nid yw'n diffinio'r hyn sy'n gwneud unigolyn neu grŵp yn agored i niwed nac yn cynnig datrysiadau heblaw bod angen i dai fod yn fforddiadwy.

"Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yn cynnwys gwneud y gorau o gyflenwi tai fforddiadwy, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, er mwyn helpu i gynnal cymunedau; cynyddu'r lefel o gyflenwi tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio; darparu ystod eang o opsiynau tai i bobl agored i niwed; opsiynau tai i bobl hŷn; gwella cyflwr stoc tai Sir Benfro; adfywio cymdogaethau ac annog tai newydd ac wedi'u hadnewyddu sy'n ecogyfeillgar. Mae'r CDLL yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn gan roi pwyslais ar gyflenwi tai fforddiadwy, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, a chanolbwyntio ar ddylunio da, cynaliadwy."

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLL hwn yn diffinio iechyd yn benodol. Mae'n amlinellu disgwyliad oes a chanran y boblogaeth sy'n nodi bod ganddynt salwch hirdymor neu *"nad yw eu hiechyd yn dda"* o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Caiff iechyd ei ystyried yn dipyn o gysyniad haniaethol neu'n gysyniad *"arall"* nad yw'n cael ei drafod na'i ddiffinio'n glir.

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Sir Benfro

Dim diffiniad o degwch neu anghydraddoldeb iechyd. Mae'n sôn am gydraddoldeb o ran datblygu cynaliadwy a bod yn *"rhaid gwneud hyn mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal"* tud. 153.

Yn nodi bod *"anghydraddoldebau iechyd neu gymdeithasol"* yn fater allweddol i'r ardal o dan cymunedau cynaliadwy, tud. 26.

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Sir Benfro

Mae'n crybwyll *"Newidiadau strwythurol i ddarpariaeth iechyd/gofal cymdeithasol"*. *"Defnyddio dulliau teithio sy'n fwy cynaliadwy ac iachach"* tud. 16. *"Effaith llygredd ar yr amgylchedd ac iechyd a lles pobl"* tud. 33. *"Lle y mae pryderon y byddai cynnig yn achosi niwed i iechyd a diogelwch drwy halogi, effaith andwyol ar ansawdd yr aer, ansefydlogrwydd tir, llifogydd neu erydu, ceisir cyngor proffesiynol gan yr awdurdod perthnasol"* tud. 78.

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd asesiad o'r effaith ar iechyd i gwblhau'r CDLL hwn. Crybwyllir asesiad o'r effaith ar fanwerthu ac asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd yn y ddogfen, sy'n dynodi cysylltiad blaenorol yr ACLL â'r broses asesu effaith.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Sir Benfro yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae hyn yn ganlyniad i amseriad y ddogfen.

Cyfleoedd ar gyfer iechyd yn CDLL Casnewydd

Mae yna nifer o gyfleoedd ar gyfer iechyd. Byddai diffiniadau penodol o iechyd, tegwch iechyd, ac effaith penderfynyddion cymdeithasol ar ganlyniadau iechyd yn gam priodol ynghlwm wrth y drafodaeth am ddisgwyliad oes ac iechyd cyffredinol o gymharu â gweddill poblogaeth Cymru.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL yn 2018 a bwriedir ei adnewyddu yn 2026.



Mae gan Bowys boblogaeth o **133,200** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLL hwn yn rhestru blaenoriaethau Cynllun Powys yn Un (cynllun ar wahân) – mae'n sôn am bobl hŷn a theuluoedd agored i niwed. Mae anghenion plant a babanod agored i niwed, a'u teuluoedd, yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl fel y gallant fyw bywydau diogel a bodlon. Mae'r cynllun hwn hefyd yn sôn am lesiant gofalwyr.

Er bod yna ddisgrifiad da o rai grwpiau agored i niwed, mae hynny mewn perthynas â chynllun arall, ac nid yw'n ymhelaethu ymhellach ar yr hyn y mae bod yn agored i niwed yn ei olygu nac yn cynnwys enghreifftiau o anghenion penodol y grwpiau hyn.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Powys o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLL hwn yn diffinio iechyd yn benodol ond mae'n amlinellu'r canlynol: *"Mae'r CDLL yn cyfrannu at yr ymrwymiad at Iechyd Meddwl a Lles a Byw'n Iach trwy bolisiau mannau agored, atal y golled o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol pwysig oni ellir cymryd camau yn erbyn hyn a thrwy fod yn gefnogol o gyfleusterau hamdden sydd wedi'u dylunio a'u lleoli'n dda."*

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Powys

Dim diffiniad o degwch neu anghydraddoldeb iechyd. Mae'n crybwyll asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ddwywaith.

Nid oes yna sôn gwirioneddol am wella iechyd na chydraddoldeb yn yr ardal ac eithrio cyfeiriadau ar lefel arwynebol megis trwy ddarparu ryw faint o dai fforddiadwy.

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Powys

Dyma'r unig gyfeiriad: *"Mae Cynllun Gofodol Cymru (diweddariad 2008) yn pwysleisio bod mynediad da at wasanaethau ledled Canolbarth Cymru yn un o'r prif ffactorau sy'n pennu ansawdd bywyd yno, yn enwedig o ran mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau daearyddol a chymdeithasol sylweddol a geir ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn yr ardal, sy'n wledig yn bennaf"* tud. 118.

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd asesiad o'r effaith ar iechyd i gwblhau'r CDLL hwn. Crybwyllir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith Weledol ac ar y Dirwedd, Asesiad o'r Effaith ar

y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd, ac Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yn y ddogfen – sy'n dynodi cysylltiad blaenorol y ACLL â'r broses asesu effaith.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Powys yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Powys

Mae yna nifer o gyfleoedd ar gyfer iechyd.

Yn yr un modd â phob un arall, mae angen diffiniad penodol o iechyd, tegwch iechyd, a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd.

Daw nifer o'r dyfyniadau ynghylch iechyd, tegwch a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd trwy eu disgrifiad o gynlluniau eraill yn unig. Byddai'n fuddiol cynnwys amlinelliad clir o'r CDLL a'r ffyrdd y mae'n gysylltiedig ag iechyd, neu y gellir ei gysylltu ag iechyd.

Rhondda Cynon Taf

Dolen i'r CDLL >>>

Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL yn 2011, a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2021. Mae'r CDLL newydd ar y gweill ac yn cwmpasu'r cyfnod 2022-2037.



Mae gan Rhondda Cynon Taf boblogaeth o **237,700** (Cyfrifiad 2021).



Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLL hwn yn sôn am blant a theuluoedd yng nghyd-destun y cynllun plant a phobl ifanc (cynllun ar wahân) ac yn nodi rhai o anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Yn yr adran am dueddiadau cymdeithasol mae'n crybwyll y canlynol: *"Mae'r crynodiad cyffredinol uchaf o amddifadedd yn Rhondda Cynon Taf wedi'i leoli yn y cymoedd canolog a gogleddol (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008). Mae 27% o drigolion Rhondda Cynon Taf yn dioddef o salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar yr unigolyn o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 23% yn unig (y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Nid oes gan 41% o drigolion Rhondda Cynon Taf unrhyw gymwysterau academiaidd o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 33% (y Swyddfa Ystadegau Gwladol)"* tud. 17

Mae'r ystadegau hyn yn rhoi cipolwg ar anghenion yr ardal; fodd bynnag, maent yn ddisgrifiadol ar y cyfan. Nid oes yna lawer o ddyfnder o ran yr hyn sy'n gwneud grwpiau penodol yn agored i niwed, nac anghenion amrywiol y gymuned, a'r cysylltiadau rhwng bod yn agored i niwed ac iechyd.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLL hwn yn diffinio iechyd yn benodol, ac nid oes yna adran ar wahân ar iechyd.

Un o nodau'r cynllun yw *"darparu gwell ansawdd bywyd trwy sicrhau bod ein cymunedau'n fywiog, yn iach, ac yn ddiogel, yn darparu mynediad at ystod o weithgareddau diwylliannol, masnachol a hamdden, ac yn diogelu ein treftadaeth naturiol a'n hamgylchedd adeiledig"*.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Rhondda Cynon Taf

Dim diffiniad o degwch neu anghydraddoldeb iechyd. Crybwyllir anghydraddoldeb iechyd mewn modd disgrifiadol o dan ddisgrifiad o'r strategaeth iechyd, Gofal a Lles Cymdeithasol, ond nid oes unrhyw gysylltiad â'r ddogfen hon na'r hyn y mae'n ei olygu.

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLI Rhondda Cynon Taf

Crybwyllir y canlynol o dan y cynllun plant a phobl ifanc (felly nid y CDLI yn benodol) (tud. 12). *“Yn cael dewis cynhwysfawr o gyfleoedd o ran addysg a dysgu; Yn mwynhau’r iechyd gorau posibl, ac yn rhydd o unrhyw gamdriniaeth, erledigaeth nac ecsbloetiaeth; Heb fod dan anfantais tlodi.”*

Mae’r cynllun hefyd yn ymdrin â’r canlynol: *“Bydd darparu amgylcheddau cerdded a beicio diogel a chyfleus yn helpu i fynd i’r afael â phroblemau iechyd sy’n gysylltiedig ag anweithgarwch corfforol, a ffactorau allgáu cymdeithasol sy’n deillio o ddibyniaeth ar geir, mynediad gwael at wasanaethau a chyfleusterau cludiant cyhoeddus”* tud. 51. *“Cydnabyddir bod mannau agored, boed yn ardaloedd ffurfiol ar gyfer chwaraeon, yn fannau agored cyhoeddus anffurfiol, neu’n fannau gwyrdd naturiol, yn chwarae rhan sylweddol yn y broses o wella a chynnal iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl”* tud. 53. *“Gall llygredd achosi niwed sylweddol i iechyd, ansawdd bywyd ac amwynder preswyl unigolion”* (tud. 59).

Fel y nodir uchod, mae’r cynllun yn sôn am benderfynyddion cymdeithasol iechyd ond nid yw’n eu diffinio felly, nac yn esbonio’n union beth y mae hyn yn ei olygu.

Iechyd Strategol – Asesiad o’r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd asesiad o’r effaith ar iechyd i gwblhau’r CDLI hwn. Nid oes sôn am unrhyw asesiadau effaith eraill. Gall hyn fod yn ganlyniad i oedran y ddogfen yn hytrach na chysylltiad yr ACLL presennol â’r broses asesu effaith.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLI Rhondda Cynon Taf yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Gall hyn fod yn ganlyniad i oedran y ddogfen.

Cyfleoedd ar gyfer iechyd yn CDLI Rhondda Cynon Taf

Mae yna nifer o gyfleoedd ar gyfer iechyd.

Yn yr un modd â phob un arall, mae angen diffiniad penodol o iechyd, tegwch iechyd, a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd. Trafodaeth am anghenion penodol y gymuned a’r modd y gallai proffil demograffig Rhondda Cynon Taf gael effaith bellach ar iechyd ei thrigolion.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL yn 2019, a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2025. Mae'r CDLL newydd ar y gweill ac yn cwmpasu'r cyfnod 2023-2038.



Mae gan Abertawe boblogaeth o **238,500** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae yna gryn dipyn o drafodaeth am anghenion amrywiol plant a theuluoedd (yn enwedig mewn perthynas â chwarae a mannau agored, a maint tai), ond dim byd pellach.

Mae'r CDLL yn nodi, o ran mynediad cyhoeddus, *"rhaid i safonau cynllunio ar y rhwydwaith HTC ystyried pobl ag anawsterau symudedd, pobl ifanc a'r henoed."*

Mae hyn yn dynodi ymgais Abertawe i ddeall anghenion amrywiol ei phoblogaeth, ond mae yna gyfle, fodd bynnag, i ddiffinio nodweddion pellach.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Abertawe o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Mae Abertawe yn Ddinas Iach yr WHO. Fodd bynnag, nid yw'r CDLL hwn yn diffinio iechyd yn benodol o hyd. Mae yna adran ar wahân ar iechyd. Sonnir am iechyd 182 o weithiau.

Lawer gwaith, mae'n ymddangos fel pe bai iechyd yn cael ei ystyried yn ffordd o gynyddu dymunoldeb a chystadleurwydd economaidd yr ardal. *"Amcanion y Cynllun o greu lleoedd dymunol, iach a chynaliadwy i fyw ynddynt"* tud. 82.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Abertawe

Dim diffiniad o degwch neu anghydraddoldeb iechyd.

Mae'r CDLL yn rhestru amcan strategol, sef *"creu amgylcheddau sy'n annog ac yn cefnogi iechyd da, llesiant a chydraddoldeb"*. Mae'n ystyried rôl creu lleoedd a chynllunio fel a ganlyn: *"Rhan annatod o greu lleoedd a chynllunio cyfannol yw creu a rheoli mannau sy'n ceisio sicrhau cynhwysiant cymdeithasol, cyfle cyfartal a mynediad i bawb."* tud. 47, ac mae'n nodi y bydd *"anghydraddoldebau iechyd yn cael eu lleihau a bydd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hannog trwy sicrhau bod cynigion datblygu"* yn dilyn nifer o amcanion y cyfeirir atynt mewn colofn ddiweddarach.

Ymdriniaeth o benderfyniadau cymdeithasol iechyd yn CDLL Abertawe

Mae CDLL Abertawe yn ymdrin â'r penderfyniadau cymdeithasol iechyd canlynol, ond nid yw'n eu diffinio felly.

- Bydd gwneud Teithio Llesol yn ddewis mwy deniadol yn achos trafndiaeth a hamdden yn sicrhau canlyniadau gwell o ran iechyd a llesiant yn ogystal â chyfrannu at lefelau is o draffig" (tud. 115).

- Ni chaniateir datblygiadau a fyddai'n arwain at risg sylweddol i: bywyd; iechyd a llesiant dynol; eiddo; dyfroedd rheoledig; neu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol, yn enwedig o ran y canlynol: i. Llygredd aer, sŵn neu olau; ii. Y perygl o lifogydd; iii. Ansawdd neu nifer yr adnoddau dŵr; iv. Halogi tir; v. Ansefydlogrwydd neu ymsuddiant tir; vi. Datblygu adnoddau mwynol mewn modd cynaliadwy; a vii. Rheoli gwastraff cynaliadwy.

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar iechyd i ategu'r CDLL hwn.

Mae'r CDLL hefyd yn crybwyll asesiad o'r effaith ar dreftadaeth, asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd, asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, asesiad o'r effaith ar fanwerthu, asesiad o'r effaith ar y dirwedd, asesiad o'r effaith ar goedyddiaeth, ac asesiad o'r effaith ar ddatblygu ac anghenion twristiaeth. Mae'r cyfeiriadau hyn yn dynodi bod yr ACLL yn gyfarwydd â'r broses asesu effaith.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Mae CDLL Abertawe yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Abertawe

Mae yna nifer o gyfleoedd ar gyfer iechyd. Yn enwedig o ystyried ei statws o fod yn Ddinas Iach yr WHO, mae gan CDLL Abertawe gyfle i fod yn esiampl o sut i integreiddio iechyd i bob agwedd ar gynllunio a pholisïau.

Yn yr un modd â phob un arall, mae angen diffiniad penodol o iechyd, tegwch iechyd, a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd. Byddai amlinellu dangosyddion monitro penderfynyddion cymdeithasol iechyd yn cryfhau ymhellach y ddogfen a'r cysylltiadau rhwng Cynllunio'r CDLL ac iechyd.



Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLl yn 2013, a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2021. Mae'r CDLl newydd ar y gweill ac yn cwmpasu'r cyfnod 2022-2037.



Mae gan
Dorfaen
boblogaeth o
92,300
(Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Nid yw'r CDLl yn darparu manylion poblogaeth Torfaen na'i nodweddion.

Mae'n crybwyll grwpiau agored i niwed, ond mae hyn mewn perthynas â strategaeth gofal cymdeithasol a llesiant ar wahân *"Mae'r blaenoriaethau a rennir ar gyfer 2008-2011 yn y Strategaeth yn canolbwyntio ar addysg; hyfforddiant a sgiliau; camddefnyddio sylweddau; byw'n iach; oedolion agored i niwed a gofalwyr; hybu annibyniaeth a dewis; anghydraddoldebau a salwch hirdymor sy'n cyfyngu ar yr unigolyn."* tud. 21.

Mae hefyd yn sôn am ddarpariaeth ardaloedd chwarae i blant a mannau agored.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Torfaen o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid oes yna ddiffiniad penodol o iechyd. Mae'r CDLl yn crybwyll iechyd 79 o weithiau. Mae'n trafod canolfan gofal critigol newydd – *"Byddai'r datblygiad hwn yn cael effaith fuddiol sylweddol ar iechyd, cyflogaeth a thai ar gyfer yr ardal ehangach ac yn cynnig cyfle hefyd i wella gwasanaethau a chysylltedd cymuned Llanfrechfa â Chwmbwrn."* Yna mae'n parhau i ymdrin ag iechyd o ran seilwaith/cyfleusterau gofal, ac ati.

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLl.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLl Torfaen

Dim diffiniad o degwch neu anghydraddoldeb iechyd.

Mae'r CDLl yn sôn am anghydraddoldebau wrth ymdrin ag amcanion y strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant (strategaeth ar wahân). Mae'n sôn am anghydraddoldebau yn strategaeth graidd y CDLl – y rhwydwaith o gymunedau integredig lle *"Bydd ymgais i wella cyfleusterau presennol i leihau gwahaniaethau rhwng aneddiadau, a bydd ymgais i wella hygyrchedd i wasanaethau allweddol er mwyn sicrhau mynediad i bawb. Bydd hyn yn helpu i leihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac yn gwneud cymunedau yn fwy hunangynhaliol."*

Mae'r CDLl hefyd yn amlinellu'r canlynol: *"Mae'n bwysig bod hygyrchedd aneddiadau i fannau gwyrdd, mannau agored, ardaloedd o fioamrywiaeth, a chefn gwlad yn cael ei hybu, a fydd yn bwysig o ran cyfrannu at iechyd a llesiant pobl ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer adloniant a hamdden yn yr awyr agored"* tud. 68.

Ymdriniaeth o benderfyniadau cymdeithasol iechyd yn CDLI Torfaen

Nid yw CDLI Torfaen yn diffinio nac yn labelu penderfyniadau cymdeithasol iechyd yn benodol. Mae'r dyfyniadau canlynol yn dynodi dealltwriaeth yr ACLL o gysylltiadau penderfyniadau ehangach â chanlyniadau iechyd, ond gellid gwneud mwy i'w diffinio a'u cysylltu ymhellach.

- *"Mae hanes cyflogaeth mewn diwydiannau traddodiadol, tai gwael, poblogaeth sy'n heneiddio, a chyrhaeddiad addysgol is hefyd wedi cyfrannu at lefelau uwch na'r cyfartaledd o ddangosyddion iechyd gwael. Mae cyfleusterau cymunedol yn y Fwrdeistref Sirol yn ddiffygiol o ran eu nifer a'u hansawdd, a bydd darparu cyfleusterau ychwanegol a diogelu cyfleusterau presennol yn flaenoriaeth allweddol yn ystod cyfnod y cynllun"* (tud. 26).
- *"Y prif faterion yw bod gan Dorfaen, yn gymdeithasol, gyflawniad addysgol gwael, angen dybryd am dai newydd a thair fforddiadwy yn arbennig, lefelau uchel o amddifadedd, yn enwedig yn ardaloedd Gogledd a Chanol Cwmbrân, iechyd dynol gwael o gymharu â'r cyfartaledd at gyfer Cymru, a phoblogaeth sy'n heneiddio, ynghyd â rhagolwg o gynnydd cyffredinol isel ym mhoblogaeth Torfaen yn ystod cyfnod y cynllun"* (tud. 27).
- *"Hybu iechyd a llesiant trwy ddarparu datblygiadau, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol, adloniant, a chyfleoedd hamdden yn yr awyr agored, sy'n hygyrch i bawb."* Amcan y CDLI (tud. 30).

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad o'r effaith ar iechyd ochr yn ochr â'r CDLI hwn.

Fodd bynnag – *"fel arfer bydd y Cyngor yn gofyn am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i gyd-fynd â chais cynllunio mwynau."* Mae hefyd yn crybwyll asesiad o'r effaith ar draffig ac asesiad o'r effaith ar fanwerthu. Mae hyn yn dynodi cysylltiad blaenorol y cyngor â'r broses asesu effaith.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLI Torfaen yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer iechyd yn CDLI Torfaen

Mae yna gyfle yn y CDLI hwn i wneud diffiniadau pellach a mwy penodol o iechyd, tegwch iechyd, a phenderfyniadau cymdeithasol iechyd. Byddai'r CDLI hefyd yn elwa o gynnwys dadansoddiad demograffig o'r boblogaeth ac amlinelliad o anghenion penodol y boblogaeth – yn enwedig anghenion poblogaethau agored i niwed.

Byddai cysylltiadau â pholisïau presennol (h.y. y polisi iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant y soniwyd amdano eisoes), a sut yn union y gall y CDLI gefnogi nodau sy'n ymwneud ag iechyd, yn darparu synergedd rhwng cynlluniau a pholisïau'r cyngor.



Gwybodaeth gefndir

Y CDLl hwn yw'r "CDLl newydd". Fe'i cyhoeddwyd yn 2023, a'r bwriad yw ei adnewyddu yn 2028.

Mae gan Wrecsam boblogaeth o **135,100** (Cyfrifiad 2021).

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLl yn cydnabod "*bod gan y Fwrdeistref Sirol boblogaeth sy'n heneiddio*". Mae'n ymdrin â "*helpu pobl ddiamddiffyn, pobl â phroblemau symudedd, pobl hŷn, a Sipsiwn a Theithwyr*". Mae hefyd yn ymdrin â'r gofynion deddfwriaethol (Deddf Tai Cymru 2014) bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn nodi anghenion tai Sipsiwn a Theithwyr ac yn darparu ar gyfer unrhyw anghenion a nodir. Heblaw am hyn, ni ddarperir unrhyw ddadansoddiad demograffig o bwys, ni cheir unrhyw ddemograffeg o ran rhywedd, ac ni sonnir rhagor am boblogaethau a ymleiddiwyd a'u hanghenion penodol.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLl yn cynnwys diffiniad penodol o iechyd. Amlinellir dealltwriaeth Wrecsam o iechyd ar dudalen 64 – "*Mae angen deall iechyd a lles yn eu cyfanrwydd, gan gydnabod bod y materion hyn yn gymhleth a thrawsbynciol drwy'r Cynllun a chydabod mai un ffactor ymysg nifer yw cynllunio o blith rhai sy'n dylanwadu ond yn galluogi*". Mae iechyd wedi'i integreiddio i'r rhan fwyaf o adrannau'r cynllun, neu'n cael ei grybwyll yn yr adrannau hynny.

Mae yna adran ar wahân ar iechyd – SP13 Iechyd a Llesiant, o dan safleoedd tai strategol allweddol. Mae'r polisi hwn yn "*unol ag amcan strategol y Cynllun i hyrwyddo ac annog ffyrdd iach, egniol a diogel o fyw yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'n adlewyrchu'r cyfarwyddyd mewn polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol bod iechyd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ac yn cael ei ystyried yn elfen hanfodol o ddatblygu cynaliadwy*" tud. 64.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLl.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLl Wrecsam

Mae'r CDLl yn rhoi diffiniad o anghydraddoldebau iechyd: "*Gellir diffinio anghydraddoldebau iechyd fel gwahaniaethau o ran statws iechyd neu yng ngwasgariad agweddau dylanwadol iechyd rhwng gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, gwahaniaethau o ran marwolaethau rhwng pobl hŷn a phoblogaethau iau, neu wahaniaethau mewn cyfraddau marwolaethau rhwng pobl o ddosbarthiadau cymdeithasol gwahanol. Mae iechyd, yn y cyd-destun hwn, yn cynnwys iechyd meddwl*" (tud. 63).

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Wrecsam

Mae CDLL Wrecsam yn gwneud ymdrech bwrpasol i ymdrin â Phenderfynyddion Cymdeithasol Iechyd ac yn eu henwi felly. Mae'n labelu enghreifftiau o benderfynyddion ond nid yw'n rhoi diffiniad penodol o iechyd. Nid yw dangosyddion sy'n ymwneud â phenderfynyddion iechyd yn cael eu crybwyll yn benodol felly, ac nid oes yna gysylltiad clir rhwng y penderfynyddion amrywiol a chanlyniadau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

"Bydd y Cyngor yn ceisio diwallu anghenion iechyd a lles ein trigolion drwy fynd i'r afael â phenderfynyddion allweddol iechyd, gan gynnwys amddifadedd, amgylchedd ffisegol ac annog ffyrdd o fyw egniol."

"Dylai'r holl ddatblygu geisio lleihau anghydraddoldebau iechyd a darparu cyfleoedd ar gyfer ffordd o fyw iach a gwella iechyd a llesiant, yn cynnwys iechyd meddwl, trwy fynd i'r afael â phenderfynyddion ffisegol, economaidd a chymdeithasol iechyd."

"Bydd y Cyngor yn ceisio diwallu anghenion iechyd a lles ein trigolion drwy fynd i'r afael â phenderfynyddion allweddol iechyd, gan gynnwys amddifadedd, amgylchedd ffisegol ac annog ffyrdd o fyw egniol" tud. 64.

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i'w integreiddio i CDLL Wrecsam. Roedd hon yn ddogfen ar wahân. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd ac mae'n ddogfen ategol. Mae'r CDLL hefyd yn sôn am Asesiad o'r Effaith Weledol ac ar y Dirwedd, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, ac Asesiad o'r Effaith ar Fanwerthu.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Gwnaed sawl cyfeiriad yn CDLL Wrecsam at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Wrecsam

Byddai rhoi diffiniad clir o'r hyn yw iechyd, a'r hyn nad ydyw, a nodi rhai metrigau neu ddangosyddion allweddol sy'n ymwneud ag iechyd yn cryfhau cysylltiadau presennol y ddogfen ag iechyd.

Bro Morgannwg

Dolen i'r CDLL >>>

Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL yn 2013, a'r bwriad oedd ei adolygu yn 2026. Mae'r CDLL newydd ar y gweill.



Mae gan Fro Morgannwg boblogaeth o **131,900** (Cyfrifiad 2021).



Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae Adran 3 o'r Cynllun yn nodi'r materion economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol allweddol ym Mro Morgannwg. Mae'r materion wedi'u nodi trwy ymgynghori a dadansoddi'r ymchwil sydd wedi'i chynnwys yn sylfaen dystiolaeth y CDLL. Mae'r proffil rhywedd yn nodi 49% o wrywod a 51% o fenywod, a rhagwelir yn ôl oedran y boblogaeth y bydd yna gynnydd o 8% ymhlith plant dan 18 oed a 37% ymhlith pobl o oedran ymddeol.

Mae'r CDLL yn crybwyll anghenion penodol rhai grwpiau.

Sonnir am yr henoed: *"Bod pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i barhau i fod yn annibynnol, yn iach ac yn weithgar. Eu bod yn cael cyfle cyfartal ac yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel i gwrdd â'u hamrywiol anghenion."* Mae'r CDLL hefyd yn sôn bod ar blant angen i fannau agored ac ysgol newydd gael eu datblygu yn yr ardal.

Mae'r CDLL yn amlinellu'r canlynol: *"Bydd y Cyngor yn ystyried addasrwydd unrhyw addasiadau neu estyniadau yn y dyfodol lle mae ar feddiannydd ag anableddau angen hynny neu i dderbyn estyniadau priodol ar gyfer twf teuluoedd."*

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid oes yna ddiffiniad penodol o iechyd.

Mae'r CDLL yn rhestru'r canlynol: "Ein gweledigaeth ar gyfer y Fro yw y bydd yn lle:

- Sy'n ddiogel, yn lân ac yn ddeniadol, lle mae gan unigolion a chymunedau gyfleoedd cynaliadwy i wella eu hiechyd, eu dysgu, eu sgiliau, eu ffyniant a'u lles; a
- Lle mae ymdeimlad cryf o gymuned lle mae gan grwpiau ac unigolion lleol y gallu a'r cymhelliad i wneud cyfraniad effeithiol at gynaliadwyedd yr ardal yn y dyfodol."

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Bro Morgannwg

Dim diffiniad o degwch iechyd ond mae yma ymgais i ddiffinio anghydraddoldebau iechyd – o leiaf o ran disgwyliad oes. *"O ran anghydraddoldebau iechyd, mae ffigyrau gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod disgwyliad oes ym Mro Morgannwg, fel yng Nghymru'n gyffredinol, yn cynyddu. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant hwn yn cael ei brofi'n gyfartal ar draws pob ardal gyda bylchau anghydraddoldeb yn bodoli rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus ar gyfer disgwyliad oes. Ceir anghydraddoldebau hefyd yn ansawdd bywyd mewn perthynas â disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd. Mae'r Mynegai Anghydraddoldeb Goleddol (SII) ar gyfer Bro Morgannwg yn dangos, er enghraifft, bod y bwlch*

mewn disgwyliad oes mewn dynion rhwng y bumed fwyaf a lleiaf amddifadus oddeutu 8 mlynedd. Wrth ystyried disgwyliad oes iach mae'r bwlch yn fwy fyth, sef tuag 20 mlynedd."

Mae hefyd yn crybwyll y canlynol: *"Mae amrywiaeth economaidd-gymdeithasol sylweddol i'w gweld ym Mro Morgannwg a hithau'n cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf goludog a mwyaf amddifadus yng Nghymru".* Mae'r CDLL yn amlinellu un o flaenoriaethau'r strategaeth gymunedol, sef *"Bod anghydraddoldebau iechyd yn cael eu lleihau a bod trigolion yn gallu cael gwasanaethau, yr wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol i wella eu lles ac ansawdd eu bywyd,"* ac yn nodi bod y CDLL yn gweithio i fodloni'r flaenoriaeth hon (ymhlith eraill).

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Bro Morgannwg

Er nad yw'r CDLL yn diffinio penderfynyddion cymdeithasol iechyd nac effeithiau anghydraddoldeb ar iechyd, mae'n ymdrin cryn dipyn â'r ffyrdd y bydd y CDLL yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a'r penderfynyddion cymdeithasol (heb gyfeirio atynt felly):

- *"Bydd cynigion sy'n hybu ffyrdd iach o fyw ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cael eu ffafrio hefyd. Mae hyn yn cynnwys dylunio amgylcheddau sy'n rhoi anogaeth ar gyfer gweithgarwch corfforol ac ystyried anghenion trigolion hyn o ran iechyd a gofal iechyd trwy ddyluniad adeiladau neu ddefnydd amlbwrpas o gyfleusterau cymunedol, yn enwedig lle mae hyn yn galluogi pobl i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn y gymuned leol"* (tud. 39).
- *"Bydd darparu amgylcheddau cerdded a beicio diogel a chyfleus yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig ag anweithgarwch corfforol a ffactorau allgáu cymdeithasol sy'n deillio o ddibyniaeth ar geir, mynediad gwael at wasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus gwael"* (tud. 101).
- *"Yn ogystal â sicrhau amgylcheddau iach a llesol dylid hefyd ystyried effaith dyluniad adeiladau, y defnydd o ddeunyddiau a mynediad at ardaloedd golau a thawel ar iechyd a llesiant defnyddwyr y dyfodol. Bydd darparu nodweddion neu ddefnydd ar y cyd o gyfleusterau cymunedol ar gyfer anghenion gofal iechyd sy'n galluogi pobl i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn y gymuned leol yn cael eu ffafrio lle ystyrir bod hynny'n briodol"* (tud. 101).
- *"Mae ansawdd, hygyrchedd ac amrywiaeth y seilwaith cymunedol sydd ar gael i ddiwallu"* (pg. 104).

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad o'r effaith ar iechyd ar y cyd â'r CDLL hwn.

Fodd bynnag, mae'r CDLL yn sôn am Asesiad o'r Effaith ar Briffyrdd, Asesiad o'r Effaith Weledol ac ar y Dirwedd, ac Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Bro Morgannwg yn cyfeirio at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer iechyd yn CDLL Bro Morgannwg

Mae yna adran sy'n ymdrin yn dda â phroffil economaidd-gymdeithasol yr ardal, ac iddi rywfaint o wybodaeth am anghydraddoldebau iechyd a hyd oes. Mae cynnwys hyn yn y cynllun yn ychwanegu gwerth at gynnwys ac eglurder nodau'r CDLL, a gellid defnyddio'r adran hon yn enghraifft ar gyfer CDLLau eraill. Gellid cysylltu'r adran hon ymhellach ag iechyd, a byddai'n fan da ar gyfer diffiniadau pellach o Benderfynyddion Cymdeithasol Iechyd a chyfeiriadau atynt.

Parc Cenedlaethol Eryri

Dolen i'r CDLL >>>



Mae gan Barc Cenedlaethol Eryri boblogaeth o **25,400** (Cyfrifiad 2021).

Mae trigolion Parc Cenedlaethol Eryri yn byw yn ardal ACLlau Gwynedd a Chonwy, gydag **84%** ohonynt yn byw yng Ngwynedd a'r **16% arall** yng Nghonwy (daw'r ffigurau o ganol 2018).



Gwybodaeth gefndir

Y CDLL hwn yw'r CDLL newydd a bwriedir ei adnewyddu yn 2031.

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

O gymharu â CDLLau eraill, mae Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi ystyriaeth helaeth i anghenion tai penodol ei drigolion.

"Fel llawer o ardaloedd gwledig, mae gan Eryri boblogaeth sy'n heneiddio ac mae tueddiadau'n dangos y bydd disgwyliad oes yn cynyddu, gan achosi cynnydd yn y galw am gyfleusterau iechyd a gofal ac am dai sy'n gallu lletya neu gael eu haddasu i gwrdd ag anghenion yr henoed" (tud. 21). *"Rhaid rhoi pwyslais mawr ar ddarparu cyfleoedd tai i gwrdd ag anghenion y gymuned leol yn enwedig rhai pobl ifanc a'r henoed trwy gynyddu cyfoeth trigolion ochr yn ochr ag argaeledd tai a gostyngiadau mewn costau"* (tud. 21). *"Diffiniad 'angen tŷ' – Ni all y deiliad arfaethedig fforddio rhentu na phrynu llety yn yr ardal leol ar y 'farchnad agored' ac mae'n cydymffurfio gydag un o'r meini prawf a ganlyn:*

- mae'n ddigartref ar hyn o bryd.
- yn sefydlu aelwyd newydd am y tro cyntaf.
- wedi bod yn byw mewn llety rhent ers o leiaf dair blynedd.
- ystyrir eu tŷ presennol gan yr Awdurdod Tai i fod mewn cyflwr is-safonol a gellir profi na ellir addasu'r tŷ presennol na'i uwchraddio i gwrdd â'u hangen.
- mae eu tŷ presennol yn rhy fychan i'r teulu a gellir profi na ellir addasu'r tŷ presennol na'i uwchraddio i gwrdd â'u hangen.
- gydag angen hanfodol i fyw'n agos at berson arall sydd â lleiafswm o 10 mlynedd o breswyliaeth barhaol a pharhaus yn yr ardal gymhwyso, yr angen hanfodol yn deillio o oed neu resymau meddygol a brofir.
- gyda gofynion penodol (henoed neu anabl).
- yn darparu gwaith neu wasanaeth allweddol neu sydd â chynnig swydd lawn-amser barhaol yn yr ardal gymhwyso.
- yn gadael tŷ gweithglwm ar ymddeoliad.
- nad oes llety addas ar gael yn yr ardal a bod yr unigolyn yn dymuno aros o fewn y gymuned leol am resymau economaidd neu ddiwylliannol."

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLL hwn yn diffinio iechyd yn benodol – caiff iechyd ei ystyried yn gysyniad haniaethol, o ran cynaliadwyedd, a mynediad at fannau gwyrdd a dulliau cludiant cynaliadwy. *"Ymelwa ar amgylchedd trawiadol y rhanbarth, gan gynnwys yr arfordir, treftadaeth ecolegol a hanesyddol, a hunaniaeth ddiwylliannol gref i hyrwyddo a datblygu cymunedau iachach ac adeiladu twristiaeth gynaliadwy gwerth uwch"* (tud. 15).

Un o nodau'r cynllun yw *“darparu gwell ansawdd bywyd trwy sicrhau bod ein cymunedau'n fywiog, yn iach ac yn ddiogel, yn darparu mynediad at ystod o weithgareddau diwylliannol, masnachol a hamdden, ac yn diogelu ein treftadaeth naturiol a'n hamgylchedd adeiledig”*.

Nid oes unrhyw ddangosyddion na mesuriadau penodol o ran iechyd yn y CDLL.

Mae Adran 5 y CDLL yn ymdrin â *“hyrwyddo cymunedau iach a chynaliadwy”*.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Parc Cenedlaethol Eryri

Dim diffiniad o degwch neu anghydraddoldeb iechyd. Mae nifer o gyfeiriadau at y nod llesiant *“Cymru sy'n fwy cyfartal”* ond nid oes unrhyw arwydd o'r hyn y mae'n ei olygu a sut y gellir defnyddio'r CDLL i hybu tegwch neu gydraddoldeb, a'r cysylltiadau rhyngddynt â chanlyniadau iechyd.

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Parc Cenedlaethol Eryri

Mae'r CDLL yn cyfeirio ambell dro at Benderfynyddion Cymdeithasol heb eu henwi felly na'u cysylltu ag iechyd:

- “Mae Strategaeth Gymunedol Un Conwy yn seiliedig ar geisio cyflawni wyth o allbynnau lle bo pobl Conwy: yn cael eu haddysgu ac yn fedrus; yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; yn byw mewn tai diogel ac addas; yn iach ac yn annibynnol; yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus; yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy; yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu; yn cael eu hysbysu, eu cynnwys ac yn cael gwrandawriad” (tud. 16) (mae hon yn strategaeth ar wahân, a dim ond 14% o'r boblogaeth sy'n byw yn ACLL Conwy).
- “Mae amgylchedd byw iach a diogel yn hanfodol, drwy ddyluniad adeiladu da, darpariaeth dda o ofod agored ar gyfer hamddena'r cyhoedd, a mesurau gostwng sŵn a rheolaeth dda, gwella, hyrwyddo a diogelu hawliau tramwyo a hygyrchedd at dir agored” (tud. 21).
- Mae Adran 7 yn ymdrin â *“hyrwyddo hygyrchedd a chynhwysedd”* ac yn ymwneud â thraffig yn bennaf.

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd asesiad o'r effaith ar iechyd i gwblhau'r CDLL hwn. Mae'r CDLL yn crybwyll Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol, ac Asesiad o'r Effaith Weledol ac ar y Dirwedd.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Mae CDLL Parc Cenedlaethol Eryri yn cyfeirio droeon at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Parc Cenedlaethol Eryri

A strength of this LDP is the description of what constitutes housing needs, and the specific Un o gryfderau'r CDLL hwn yw'r disgrifiad o'r hyn y mae anghenion tai yn ei olygu, ac anghenion penodol y boblogaeth sy'n agored i niwed o ran tai. Fodd bynnag, mae'r CDLL hwn yn mynd gam ymhellach na'r rhan fwyaf o'r CDLLau sydd wedi bod yn ddisgrifiadol yn unig.

Byddai'r CDLL yn elwa o gynnwys diffiniadau o iechyd, tegwch/cydraddoldeb iechyd, penderfynyddion cymdeithasol iechyd, a chysylltiadau rhwng y cynllun hwn a chanlyniadau iechyd.

Byddai'r CDLL hefyd yn elwa o gynnwys amlinelliad clir o'r modd y mae'n cysylltu â chynlluniau presennol y ddau gyngor, a'r ffordd y mae'n cydbwyso unrhyw flaenoriaethau sy'n gwrthdaro rhwng y ddwy ardal.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Dolen i'r CDLL >>>



Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro boblogaeth o **22,400** (Cyfrifiad 2021).

Mae trigolion Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro yn byw yn ACLL Sir Benfro.



Gwybodaeth gefndir

Y CDLL hwn yw'r CDLL newydd. Fe'i cyhoeddwyd yn 2020 a bwriedir ei adolygu yn 2031.

Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Mae'r CDLL yn amlinellu'r canlynol: *"Yn ystod y camau cyntaf o lunio polisiau, gweithdrefnau, arferion neu ganllawiau, mae angen i'r Awdurdod ystyried pa effaith y bydd ei benderfyniadau yn ei chael ar bobl sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig oedran, anabledd, rhywedd (rhyw), ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, tueddfryd rhywiol)"* (tud. 9).

Mae hon yn rhestr gymharol helaeth o boblogaethau sy'n agored i niwed, ond nid oes unrhyw arwydd o hyd o'r hyn y mae'n ei olygu i'r poblogaethau penodol hyn.

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLL hwn yn diffinio iechyd yn benodol – mae iechyd yn cael ei drafod fel rhywbeth i liniaru'r perygl o niwed, nid rhywbeth y gellir ei hybu neu ei wella. *"Nod y polisi hwn yw sicrhau nad yw iechyd na diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu gan ddatblygiad ger safleoedd sy'n defnyddio neu'n storio sylweddau peryglus"* (tud. 65).

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd na dangosyddion sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Dim diffiniad o degwch neu anghydraddoldeb iechyd. Mae'r CDLL yn cyfeirio at gydraddoldeb ac asesu'r effaith, gan ddangos bod ymdrech wedi'i wneud i gydnabod anghydraddoldeb yn yr ardal.

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Nid yw'r CDLL yn ymdrin â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd.

Iechyd Strategol – Asesiad o'r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd asesiad o'r effaith ar iechyd i gwblhau'r CDLL hwn. Mae'r CDLL yn sôn am Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau, Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd, Asesiad o'r Effaith Ieithyddol, ac Asesiad o'r Effaith ar Draffig.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn crybwyll y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae hwn yn hepgoriad diddorol gan fod y ddogfen wedi'i chyhoeddi yn 2020.

Cyfleoedd ar gyfer Iechyd yn CDLL Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Un o gryfderau'r CDLL hwn yw'r ystyriaeth a roddir yn benodol i boblogaethau a allai fod yn agored i niwed. Fodd bynnag, gellid cryfhau hyn ymhellach gydag amlinelliad pellach o'r poblogaethau a'u hanghenion penodol, a'r modd y gellir defnyddio'r CDLL i gynyddu cydraddoldeb a gwella canlyniadau iechyd.

Mae yna gyfle i drafod penderfyniadau cymdeithasol iechyd, ac i wneud diffiniadau pellach a chreu cysylltiadau pellach ag iechyd.

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Dolen i'r CDLL >>>

Gwybodaeth gefndir

Cyhoeddwyd y CDLL yn 2013 a'r bwriad oedd ei adnewyddu yn 2022. Mae'r CDLL newydd ar y gweill ar hyn o bryd.



Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog boblogaeth o **33,800** (Cyfrifiad 2021).

Mae'r parc cenedlaethol o fewn nifer o awdurdod lleol, ac iddynt gyfrannau amrywiol o'r boblogaeth. Yr awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw: **Powys, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy.**



Nodweddion y Boblogaeth a Sylwadau

Ychydig iawn o ffocws sydd ar bobl a phoblogaethau (dim ond yn yr adran iechyd flaenorol lle mae'n diffinio tegwch iechyd). Mae'r CDLL hwn yn cynnwys ffocws ar fioamrywiaeth naturiol y parc cenedlaethol.

Fodd bynnag, mae'r CDLL yn nodi y bydd *"ystod eang o bobl yn byw a gweithio yn Aberhonddu, a bydd tai newydd yn darparu ar gyfer yr ystod amrywiol hon o bobl. Bydd tai fforddiadwy a chartrefi cost isel canolradd yn cael eu gwella, a bydd y nifer y bobl sydd wedi'u lletya'n amhriodol yn cael ei lleihau cymaint â phosibl"* (tud. 51 – Gweledigaeth 15 Mlynedd Aberhonddu).

Dealltwriaeth Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o iechyd a chysylltiadau ag iechyd:

Nid yw'r CDLL hwn yn diffinio iechyd yn benodol. Ymddengys nad yw iechyd dynol yn ystyriaeth benodol yn y cynllun hwn. Fodd bynnag, mae'n sôn am y canlynol:

- *"Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn cynnwys cymunedau iach sy'n gymdeithasol gynhwysol, a bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cynaliadwy a ffyniannus, yn unol â'r ddyletswydd statudol"* tud. 112.
- Mae Atodiad 2 yn nodi mai un o nodweddion arbennig y parc cenedlaethol yw *"Teimlad o fywiogrwydd ac iechyd da sy'n dod o fwynhau awyr iach, dŵr glân, amgylchedd gwledig, tir agored a bwyd a gynhyrchwyd yn lleol"* tud. 209.

Nid oes yna adran ar wahân ar iechyd na dangosyddion sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd.

Dealltwriaeth o degwch/gydraddoldeb iechyd yn CDLL Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Dim diffiniad o degwch neu angydraddoldeb iechyd. Mae yna ddyfyniad o Bolisi Cynllunio Cymru ynghylch hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal (tud. 51): *“Bydd y gwahaniaeth mewn lefelau cyfoeth ac amddifadedd mewn rhai rhannau o’r dref yn cael ei wrthbwysu trwy weithredu lleol cryf i ddarparu amrywiaeth ehangach o ddewisiadau cyflogaeth a mynd i’r afael â safon llety preswyl.”*

Ymdriniaeth o benderfynyddion cymdeithasol iechyd yn CDLL Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae’r CDLL yn sôn am fforddiadwyedd tai (tud. 63) a gwella safonau byw, ond nid oes unrhyw gysylltiadau ag iechyd, ac nid oes yna gyfeiriad penodol at benderfynyddion cymdeithasol iechyd na diffiniad penodol ohonynt.

Iechyd Strategol – Asesiad o’r effaith ar iechyd

Ni chynhaliwyd asesiad o’r effaith ar iechyd i gwblhau’r CDLL hwn. Mae’r CDLL yn sôn am Asesiad o’r Effaith ar yr Amgylchedd, Asesiad o’r Effaith ar Draffig, ac Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg.

Cyfeiriad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Nid yw CDLL Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn crybwyll y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Cyfleoedd ar gyfer iechyd yn CDLL Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae yna sawl cyfle i iechyd gael ei integreiddio i’r adroddiad hwn. Er enghraifft, cydnabod y trigolion lleol, a’u demograffeg, ochr yn ochr â diffiniad penodol o iechyd.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

icc.gig.cymru

Ebost: generalenquiries@wales.nhs.uk

X @IechydCyhoeddus

f /iechydcyhoedduscymru

